

CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 301 - 60c
Mawrth 2012

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanyrcrws ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Cystadleuaeth
Panto
C.Ff.I.**



Tudalen 2 a 16

**Dathlu
Pen-blwydd
yr Urdd**




Tudalen 22

**Colli
Gwasanaeth
Bws**



Tudalen 10

EISTEDDFOD YR YSGOL GYFUN



Gethin Morgan, Creuddyn, yn ennill y Gadair gyda Llion Thomas, Dulas, yn ail a Daniel Edwardes, Teifi, yn drydydd.



Cari Lake, Teifi, yn ennill y Goron gyda Carwen Richards, Dulas, yn ail a Libby Jones, Creuddyn, yn drydydd.



Capteiniaid ac is-gapteniaid y tri thŷ. O'r chwith: Tŷ Creuddyn a ddaeth yn drydydd – Gethin Davies, Sioned Davies, Mererid Rees a Dafydd Williams. Tŷ Dulas yn gyntaf – Elin Gwyther, Chirsty Gale, Rhydian Jenkins a Sioned Hatcher. Tŷ Teifi a ddaeth yn ail – Cari Lake, Vaughan Evans, Jac Evans a Lizzie Douglas.

Pantomeim Clybiau Ffermwyr Ieuainc



Clwb Llanllwni

Meinir Bartlet, Undeb Amaethwyr Cymru (Noddwyr y gwobrau), Dyfan Evans, Dyffryn Cothi ac Angharad Rees, Llangadog (actorion gorau 26 neu iau), Ifan a Dulys Gruffydd beirniaid Sir Gâr. Rhes flaen: Owain Davies, Llanllwni (actor gorau dan 18), Aled Walters, Cynwyl Elfed (Cynwyl daeth yn 1af yn y Panto) a Siân Elin Williams, Cwmann (actores orau dan 18).



Clwb Cwmann



Clwb Dyffryn Cothi



Beth yw Bwcabus?

Bwcabus yw'r gwasanaeth bws lleol newydd, sydd yn gwbl hygyrch. Mae'r gwasanaeth wedi'i deilwra i anghenion y teithwyr drwy weithredu mewn ymateb i geisiadau ymlaen llaw am gludiant. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu rhwng 7am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

Mae'r gwasanaeth yn galluogi pobl i deithio rhwng trefi a phentrefi lleol o fewn ardal Bwcabus neu gysylltu â'r prif wasanaethau bws sy'n teithio i lefydd sy'n cynnwys Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Caerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Pencader a Chastell Newydd Emlyn drwy ganolfannau lleol. P'un a oes angen ichi gyrraedd gwaith, hyfforddiant, gofal iechyd neu wasanaethau lleol, gall Bwcabus helpu. Mae'r cerbydau arbenigol newydd yn darparu llawr isel a mynediad le ar gyfer bygis a chadair olwyn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mawrth Delyth Morgans, 11 Heol Alun, Waunfawr, Aberystwyth
e-bost: golygydd@clonc.co.uk 07971375068
Ebrill Rhian Lloyd, Awel y Môr, Ffosyffin 01545571234

Tim Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Morgans

Dylunydd y mis: Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btoopenworld.com
Teipyddion Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmstychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490
Ysgrifennydd Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.

- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gwynys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: www.facebook.com/clonc
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifennyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Cymdogion

Rydym yn ffodus iawn pan fydd gennym gymdogion da. Gallwn aralleirio'r dywediad 'Mae cymydog agos yn well na brawd ymhell'. Fel teulu rydym wedi cyd-dynnu yn dda gyda'n cymdogion erioed. Dim talu sylw fod dail drws nesa' lawr yn disgyn yn ein gardd ni bob Hydref, ond wedyn sylweddoli fod dail ein coed ni i gyd yn mynd i ardd drws nesa' lan! Mae'n bwysig defnyddio synnwyr cyffredin bob amser.

Mor wahanol oedd hi i gyfaill oedd wedi cael cymdoges newydd. Nid oedd wedi'i gweld i siarad â hi am dridiau, a phan gafodd gyfle i'w chyfarfod hi, dywedodd 'Bore da, shwt y'ch chi'n setlo i lawr?' 'Pa fusnes yw e i chi!' oedd yr ateb. Pa obaith sydd i neb â'r agwedd honno ddod yn rhan o'r gymdogaeth.

Crempog neu bancws!

Maent yr un mor flacus pa beth bynnag y galwch hwynt. Rwy'n paratoi Siprys ac yn gwrandao ar Geraint Lloyd ar Radio Cymru, a beth yw'r thema rhaglen heddiw? – crempog. Ie dydd Mawrth yw hi. Un peth sy'n dristwch i mi, pam mai dim ond ar un diwrnod yn y flwyddyn y cawn ni bancws? Rwy'n gwybod mai cael gwared ar yr wyau a'r menyngyn y Grawys sy'n gyfrifol am y traddodiad – ond rhaid cofio fod yr un cynhwysion gennym yn ein cypyrddau weddill y flwyddyn hefyd erbyn hyn. Ond wedi meddwl, gan fod llawer ohonom yn dioddef o glefyd y siwgrwr a phroblem y galon, efallai mai da o beth i lawer ohonom yw cyfyngu'r panews i un diwrnod!

Anfaddeuol!

Rhaid i ni yn ardal Clonc fod yn ddiolchgar am y cyfleusterau ailgylchu sydd gennym o fewn cyrraedd. Nid oes problem cael gwared ar beiriant golchi neu oergell. Pam felly fod rhai yn dal i daflu offer cegin ac ati allan yn y wlad? Ydych, rwy'n siŵr eich bod yn cyd-fynd â fi, mae hyn yn wirioneddol anfaddeuol.

Problem Ysbytai!

Mae ceisio arbed arian yn creu problemau pellgyrhaeddol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn dod yn amlwg wrth gwtogi gwasanaethau yn ein hysbytai. Mae mynd o Aberystwyth i Gaerfyrddin yn dipyn o siwme, cyn hyd yn oed ystyried natur y ffyrdd a'r tywydd. Mae poblogaeth cefn gwlad mor isel ac ar bapur mae'n rhaid cael poblogaeth uchel i warantu arbenigwyr ym maes iechyd. Adlewyrchir hyn hefyd ym myd yr heddlu, yr ambiwlans a chyda thrafnidiaeth gyhoeddus. Fe fydd y broblem yn parhau am hydoedd, gyda rhai ardaloedd yn lwcus ac eraill, yn anfodus, yn dioddef.

Ein Tîm Rygbi

Erbyn y daw'r rhifyn hwn o Clonc i'ch dwylo, fe fydd y gêm ryngwladol rhwng y Cymry a'r Saeson wedi bod. Gobeithio y bydd yn gêm foddhaol a'n tîm cenedlaethol yn fuddugol. Trueni bod cymaint o'n chwaraewyr yn troi at dimoedd Ffrainc; mae'r telerau ariannol yn mwy ffafriol. Mae llawer ohonom yn mwynhau gwyllo rygbi ar y teledu, ond gwaetha'r modd, nid yw hyn yn cynorthwyo'r clybiau i dalu costau.

Pob hwyl,

Cloncynt

Gohebiaeth Clonc



Lowtre
Llanwnnen

Annwyl olygydd,

Gaf i drwy gyfrwng papur bro Clonc ddiolch yn fawr i drigolion plwyf Llanwnnen a Llanwenog am eu cefnogaeth, wrth i mi ddod â'm cyfnod fel eu Cynghorydd Sir i ben.

Mae wedi bod yn fraint ac yn anrhydedd cael gwasanaethu etholwyr yr ardal oddi ar 1999, ac roedd hi'n anodd gwneud y penderfyniad na fyddaf yn sefyll eto ym mis Mai. Rydym wedi gweld cryn newidiadau yn lleol yn ystod y cyfnod hwnnw, ac fe fydd mwy o heriau yn ein wynebu fel cymuned dros y blynyddoedd nesaf.

Er na fyddaf yn sefyll ar ran Plaid Cymru yn yr etholiad i Gyngor Sir Ceredigion fis Mai, rwy'n falch mai Geraint Davies, Llyderi, Llanwenog, fydd ein hymgeisydd. Os caiff ei ethol, rwy'n siŵr y bydd yn gynghorydd effeithiol dros y ward, ac rwy'n edrych ymlaen at ei gefnogi yn yr etholiad.

Tan hynny, byddaf yn parhau i wasanaethu fel y Cynghorydd Sir dros blwyf Llanwnnen a Llanwenog, ac mae croeso i bobl barhau i gysylltu â mi os allaf fod o unrhyw gymorth.

Yn gywir,

Cyng Haydn Richards



Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk



MAWRTH

- 2 Cwrdd Gweddi Byd-Eang y Chwirydd – Caersalem Parcyrrhos.
2 Noson y Llywydd Sefydliad Prydeinig y Galon ardal Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan yn cynnal ‘Cawl a Chân’ yn y Brifysgol am 7.30 y.h. Arweinydd: Mr Ifan Gruffydd, Tregaron. Artistiaid: Clychau'r Fedwen a Georgina Cornock. Tocyn: £12.00 drwy ffonio 01570 422 625, 01570 422 099, 01570 423 692.
2 Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni yn cynnal cyngerdd. Croeso cynnes i bawb. Am fwy o wybodaeth neu am docynnau, cysylltwch â Meryl Davies ar 01559 384217 / 07791305614.
4 Cymanfa Ganu Brenhines CFFI Ceredigion yng Nghapel Brynrihwgaled, Synod Inn. Arweinydd: Eimir Ryder, Cwmsychpant.
6 Eisteddfod yr Urdd Ddawns Cynradd ac Uwchradd Cylch Llambled yn Ysgol Gyfun Llambled.
6 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd.
8 Eisteddfod yr Urdd Cynradd Cylch Llambled yn yr Ysgol Gyfun.
8 Gyrfa Chwist yn y Llew Du, Llanybydder am 8.00 y.h. Elw at elusennau lleol.
9 Eisteddfod yr Urdd Uwchradd Cylch Llambled yn yr Ysgol Gyfun.
9 Ysgol Carreg Hirfaen yn cyflwyno Noson o Gawl a Thwmpath am 6.30 y.h. yn Neuadd Sant Iago Cwmann yng nghwmni Erwyd Howells, aelodau CFFI Cwmann a disgyblion yr ysgol. Tocynnau £5 oedolion £3 plant, ar gael yn siopau J H Roberts a'i feibion a W D Lewis a'i fab.
14 Arwerthiant blynyddol Cymdeithas Chwirydd Aberduar Llanybydder yn y Ffestri am 7.00 y.h.
16 Karl Jenkins yn traddodi Darlith Goffa Tucker yn Narlithfa Tucker ar gampws Llambled am 5.00 y.p. Mynediad am ddim trwy docyn. Cysylltwch â Rhiannon Ifans 01970 828719. Croeso i bawb.
17 Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd Cynradd Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
18 Oedfa'r Ifanc yn Noddfa am 9.45 y.b.
20 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd.
21 Eisteddfod Ddawns ac Aelwydydd yr Urdd Rhanbarth ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
22 Bingo Ysgol Feithrin Drefach yn Cefn Hafod, Gorsgoch.
23 Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd Uwchradd Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
23 Cyngerdd Ysgol Eglwys Llanllwni yn neuadd yr ysgol am 7.30 y.h.
25 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Cribyn am 4 y.p. ac am 5 y.p.

EBRILL

- 1 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd am 4.00 y.p. ac am 5.00 y.p.
11 Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen i ddechrau am 1.30 y.p.
15 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel y Graig, Llandysul am 4.00 y.p. ac am 5.00 y.p.
20+21 Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch.
21 Cyngerdd gan Côr Cwmann a'r Cylch, ynghyd ag Aled Edwards, Eleri Owen Edwards, Kees Huysmans a pharti bechgyn Dyffryn Cothi, yn Neuadd Brofana Ffarmers am 7.30 y.h. Arweinydd: Lyn Richards. Elw at Ambiwlans Awyr ac Ymchwil y Cancr.
22 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Rhydygwin am 4.00 y.p. ac am 5.00 y.p.
29 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel Rhydygwin, Temple Bar. Plant ac Ieuencid am 2 a'r Oedolion am 5.30 y.h.

MAI

- 7 Calan Mai Ysgol Cwrtnewydd (y 25ain blwyddyn i'r ras gael ei cynnal).
11 Noson Goffi yn Ffestri Aberduar am 7.00 y.h. Adloniant gan blant Ysgol Gynradd Llanybydder a Chôr Lleisiau'r Werin. Croeso i bawb. Trefnir gan Bwyllgor Buddiannau'r Henoed, Llanybydder.

MEHEFIN

- 2 Rali CFFI Ceredigion ar fferm Llechwedd, Llanwenog.
3 Cymanfa Ganu'r Rali yn Eglwys Llanwenog.
30 Diwrnod Hwyl Ysgol Gynradd Llanwenog.

Llanfair Clydogau

Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth mam Lesley Stevens, Sŵn y Ddôl a Jane ei chwaer, Bro Clywedog. Estynnwn ein cydymdeimlad iddynt eu dwy ac i'w teuluoedd.

Cinio Sant Ffolant

Am y trydydd tro mewn pum mlynedd, cynhaliwyd cinio Sant Ffolant ar nos Sadwrn, Chwefror 18fed, yr arlwy wedi'i pharatoi i 60 o bobol. Addurnwyd y byrddau, yn gwbl briodol, mewn pinc a choch.

Eleni penderfynwyd cael bwffe pedwar cwrs wedi'i baratoi gan ferched y pentref. Cafwyd noson lwyddiannus a hyfryd yn mwynhau bwyd bendigedig fel arfer, a chyfle unwaith eto i gymdeithasu â chymdogion a ffrindiau.



Mae ein diolchiadau yn lu. Diolch i bawb fu yn trefnu'r dodrefn, i'r rhai a fu'n addurno'r neuadd a'r byrddau, ac i bawb a fu mor brysur yn cwrdd a pharatoi'r fwydlen a'r bwyd i gyd.

Cyn diwedd y noson cawsom wledd o adloniant gan Caryl Haf o Landdewi, gyda Nia Jones, Llanfairfach, yn cyfeilio. Swynwyd y gynulleidfa gan lais pur Caryl. Diolch i'r ddwy ohonynt, a bydd croeso iddynt yn ôl i'n diddanu unrhyw amser. Mae'r ddwy yn perthyn i Glwb Ffermwyr Ifanc Llanddewi Brefi ac yn ystod y canu cawsant gyfle i ganmol gwaith y mudiad dros bobol ifanc Ceredigion a thros Gymru gyfan.

'Chwifw'n Ein Baneri'

Pan ewch i'n neuadd o hyn allan, fe welwch faneri gwaith llaw 'applique' yn addurno'r lle, wedi'u hongian o drawstiau'r nenfwd.



Mae pob un yn dair troedfedd o hyd a dwy o led ac yn darlunio gwahanol agwedd o bentref Llanfair. Mae'r cyfan wedi'i gynllunio a'i wnïo gan aelodau grŵp 'Twine and Whine' sydd yn cwrdd bob pythefnos yn y neuadd. Roedd pob un yn rhydd i ddewis pa agwedd y dymunent, ac mae pob baner yn ddwy ochrog. Mae gwaith Elaine Coombes yn cynnwys

barcud coch ac eog disglair yn neidio allan o afon Teifi. Gwnaeth Isobel Taylor arlunio hen goeden dderwen Llanfairfawr, a dewisodd Daphne Lewis wneud Pont Llanfair. Capel Mair a ddewisodd Iris Quan, gyda Mair Davies yn dewis gwneud arfbais Ceredigion. Yn Eglwys Santes Fair mae bedyddfaen o'r ddeuddegfed ganrif gyda ffigurau wedi'u cerfio arni. Dewiswyd dau o'r rhain gan Paula Barker, eryr Sant Ioan ac ych ag adenydd Sant Luc, a chyflawnwyd y rhain gyda pheth help gan Dodi Herschel. Gwelwyd y baneri yn eu holl ogoniant am y tro cyntaf yng nghinio Sant Ffolant gyda phawb yn clodfori'r gwaith a harddwch y baneri.

Gwellhad Buan

Estynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Aerwen Griffiths, Pengarn, sydd newydd ddod allan o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth ar ei hail glun.

Pen-blwydd Hapus

Dymuniadau gorau i Ieuan Thomas, y Felin, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 70 oed.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

CFfl Cwmann

Dros yr wythnosau diwethaf mae Clwb Ffermwyr Ifanc Cwmann wedi bod yn brysur yn ymarfer ac yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth y pantomeim. Ar ôl yr holl ymarfer a pharatoi, yr hwyl a'r sbri, fe ddaeth y noson fawr. Ar nos Lun y 13eg o Chwefror roedd aelodau clwb Cwmann wedi'u gwisgo a choluro ac yn barod i berfformio ar lwyfan San Pedr yng Nghaerfyrddin. Cafwyd perfformiad arbennig gyda'r neuadd yn orlawn a'r gynulleidfa yn ymateb yn dda. Y prif gymeriadau oedd Aled Bowen – Gavin Henson, Tomos Jones – Martin Johnson, Louise Jones – Gwas Bach Martin, Carwyn Lewis – Elgan Sara, Rhys Jones – Dame, Sian Elin Williams – Madam Rygbi Davies, Aled Thomas – Alan Roland, Morgan Lewis – Paddy McGuinness, ynghyd â gweddill y cast. Wedi tair noson o gystadlu brwd a naw clwb yn cystadlu, cafwyd y canlyniadau ar nos Fercher. Ac yn wir, daeth llwyddiant i Sian Elin Williams; fe'i dyfarnwyd y perfformwraig orau dan 18. Llongyfarchiadau mawr iawn i ti ar dy berfformiad cofiadwy. Cynwyl Elfed ddaeth i'r brig o ran y pantomeim, Dyffryn Cothi yn ail a Llangadog yn drydydd. Carem ddiolch i bawb a fu'n barod i roi o'u hamser i'n hyfforddi – Sian Roberts-Jones, Llinos Jones, Dylan a Carys Lewis, Aled Jones Evans, Wyn a Meinir Jones ac i bawb a fu wrth y set, tu ôl llwyfan gyda'r gwisgoedd ac yn coluro, yn aelodau a ffrindiau.

Arholiad Piano

Llongyfarchiadau i Mari Lewis, Tycerrig, ar basio arholiad piano ABRSM gradd un gyda chlod. Hyfforddwyd Mari gan Dorothy Wilson.

Cartref newydd

Croeso nôl i'r pentref i Owain Jones (Felindre gynt) a'i wraig Bethan Mai wedi cyfnod yn byw yng Nghaerfyrddin. Dymuniadau gorau i chi'ch dau yn eich cartref newydd – Treweryn, Cwmann.

Sefydliad y Merched Coedmor

Croesawodd Mary Davies ein Llywydd bawb i gyfarfod mis Chwefror yn y Ganolfan. Llongyfarchwyd Anne Lewis a Joyce Williams ar ddod yn ddwy fam-gu, a dymunwyd yn dda i Gwyneth Morgan a Helena Gregson sydd ill dwy wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Ar ôl trafod materion y gangen croesawodd y Llywydd ein siaradwraig wadd, Carol Rees, a ddaeth i siarad am ei gwaith fel arbenigwraig mewn reflexology. Cafwyd noson addysgiadol a diddorol iawn wrth iddi sôn am yr driniaeth amgen all gael ei defnyddio

at lawer o afiechydon. Yn wir, roedd y Llywydd wedi llwyr ymlacio wrth i Carol arbrofi'r driniaeth ar ei thraed!

Diolchodd Elma Phillips i Carol am ein diddori a rhoi disgrifiad mor broffesiynol o'i gwaith.

Enillwyd y raffl gan Mary Davies. Irene Price ac Elma Phillips oedd yn gyfrifol am weini'r te.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 5 Fawrth pan fyddwn yn dathlu dydd Gŵyl Dewi ym Mark Lane, Llanbed. Y Ficer Roger Thomas fydd y gŵr gwadd.

Ysgol Carreg Hirfaen

Cafodd tîm pêl-rwyd yr ysgol ddiwrnod arbennig yn Llangrannog yn ddiweddar gan ennill Pencampwriaeth Pêl-rwyd Ceredigion. Enillwyd yn erbyn ysgolion Aberteifi, Plascrug, Bro Siôn Cwilt, Llandysul, a chawsom gêm gyfartal yn erbyn Ysgol Bont. Mae'r tîm yn awr yn cael y fraint o gael cynrychioli Ceredigion ym Mhencampwriaeth Cymru. Pob lwc i chi.

Rydym yn brysur iawn yn ymarfer ar gyfer eisteddfod yr ysgol ac eisteddfod yr Urdd. Pob lwc i'r holl blant sydd yn cystadlu, boed yn unigol neu fel rhan o grŵp.

Cawsom noson coch, gwyn a gwyrdd yn yr Urdd yn ddiweddar, gyda phawb yn gwisgo i fyny, paentio lluniau, a blasu bwydydd o blith y lliwiau rhain.

Braf oedd cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithdy trychfilod yn Nolaucothi yn ystod y mis. Treuliwyd y bore yn edrych am drychfilod a bu'r plant yn adeiladu gwesty iddynt yn y prynhawn. Er gwaetha'r tywydd oer, cafwyd diwrnod hwylus yn yr awyr agored, a phob un wedi mwynhau.

Mae Pwyllgor Rhieni ac Athrawon yr ysgol yn cynnal noson o gawl a thwmpath ar y 9fed o Fawrth 2012 yn Neuadd Sant Iago, Cwmann, i gychwyn am 6.30yh. Croeso cynnes i bawb.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Jenkin a Evana Mason, 21 Treherbert, ar ddathlu eich Priodas Aur yn ddiweddar.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Cerys Roberts, Caeronnen, ei phenblwydd yn 18 oed yn ystod y mis. Gobeithio i ti fwynhau'r diwrnod.

Ysbyty

Dymunir arferiad llwyr a buan i Helena Gregson, Werna ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili.

Llwyddiant Eisteddfod

Llongyfarchiadau i Gethin Morgan, Llys Penparc, ar ennill Cadair Eisteddfod Ysgol Gyfun



Yn ystod gwasanaeth fore Sul yn Eglwys Sant Iago, Cwmann, rhannwyd £800 yn gyfartal rhwng Apêl Elain (i John a June James) ac Apêl Lesotho (i Pat Jones). Cyflwynwyd y sieciau gan y Parchedig Will Strange, Archddiacon Ceredigion. Codwyd yr arian drwy wahanol weithgareddau a drefnwyd gan Ddeoniaeth Llanbed ac Uwch Aeron, gan gynnwys Swper Cynhaef, Cymanfa Ganu a gwasanaeth Plygain.

Llanbed. Tipyn o gamp, a dal ati.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Joan Davies a'r teulu, 38 Heol Hathren, ar farwolaeth ei mam yng nghyfraith a mam-gu, sef Mrs Bet Davies, Glanhocca gynt. Hefyd cydymdeimlir â theulu Fferm Felinfach ar farwolaeth modryb, Mrs Ydwen Gregory, Llyshelen gynt, a oedd wedi dychwelyd i fyw i Sidcup, Kent, ers rhai blynnyddoedd.

Diolch

Dymuna Helena Gregson, Werna ddiolch i bawb a ddanfonodd gardiau, rhoddion a'r galwadau ffôn yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

Ennillwyr misol y Clwb 225

1. Mrs. Anita Williams, Gwêl y Coed, Cwmann, 2. Miss Davies, Tŷ Capel, Parc y Rhos, 3. Tom Davies Jones, Glanhelen, Llanbed, 4. Gwenda Jones, 47 Heol Hathren, Cwmann, 5. Emyr Jones, Araul, Cwmann, 6. Ieuan Jenkins, Pennant, Rhydcymerau, 7. Mrs Rh. Thomas, Pantygwin, Cellan, 8. Aled Davies, Trefenter, Cwmann, 9. John Davies, Y Ddôl, Cellan, 10. Helen Randell, Maes Hendre, Cwmann

Clwb 125 Chwefror

1. Mr Edwin Evans, Brynderw, Cwmann, 2. Mrs Kate Williams, Sarnhelen, Cwmann, 3. Mrs Phyllis Price, Brynderi, Cwmann, 4. Mrs Eirian Jones, Hollies, Bryn Road, Llanbed, 5. Mrs Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, 6. Mrs Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann, 7. Mrs Phyllis Jones, Cilgell, Cwmann, 8. Miss Sonia Northam, 38 Bro Eynon, Llanybydder, 9. Mr & Mrs Hughes, Ramleigh, Cwmann.

Diolch

Dymuna Nicola a Bedwyr, 21 Cwrt Deri, ddiolch am yr holl gyfarchion ac anrhegion a

dderbyniwyd ganddynt yn dilyn genedigaeth Leighton Tomos ar yr 8fed o Chwefror. Diolch o galon.

Ysgol Carreg Hirfaen yn cyflwyno

Noson o Gawl a Thwmpath

9fed Mawrth 2012, 6.30yh
yn Neuadd Sant Iago Cwmann

Twmpath yng ngofal Erwyd Howells,
CFfl Cwmann yn cyflwyno
panto 'Y 7 Cês',
Eitemau gan ddisgyblion yr Ysgol.

£5 i oedolion, £3 i blant
(plant yr ysgol gynradd am ddim)
[Pawb i ddod â bowlen a llwy os gwelwch yn dda]

Tocynnau ar gael yn yr ysgol ac yn siopau
J H Roberts a'i Feibion
a W D Lewis a'i Fab, Llanbed.

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

Planhigion llysiau, lluosflwydd,
blodau'r haf a'r gaeaf, perlyisiau,
coed ffrwythau a mwy!

Dydd Llun i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp
Dydd Sul 10yb ~ 4yp

Cymdeithas Alzheimer's
Arweinir yr ymgyrch yn erbyn dementia

Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth

Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grŵp codi arian, ymgyfeillio, a gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli mae yna rhywbeth i bawb

Mae 40,700 o bobl â dementia yng Nghymru ac mae'r figwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013

Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli ar 01269 845953 / 07715 802632 neu e-bostio : gillian.morgan@alzheimers.org.uk

Elusen gofrestredig rhif 296645

Drefach a Llanwenog

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu Pwllbylwg ar golli chwaer, chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl, sef Mrs Eiryth Davies o Lamed.

Gwellhad Buan

Gobeithio erbyn hyn fod Mrs Viria Jones, Gelli-deg, adref yn gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Mrs Beryl Lewin, Harlech, ben-blwydd arbennig yn ystod mis Chwefror. Gobeithio i chwi fwynhau'r diwrnod!

Ŵyr newydd

Daeth newyddion da i aelwyd Afallon yn ystod mis Chwefror pan glywyd am enedigaeth mab bach i Bedwyr a'i bartner Nicola yn Llamed, sef Leighton Tomos, ac mae Yvonne ac Eifion wrth eu boddau gyda'r ychwanegiad newydd i'r teulu.

Eglwys Santes Gwenog

Ym mis Chwefror bu gwasanaeth arbennig i sefydlu ein Ficer, y Parchg Suzy Bale, yn offeiriad â gofalaeth am Eglwys St. Lucia, Llanwnnen. Mae Suzy nawr â gofalaeth pedair eglwys.

Jac Evans a Ben Lewis fu'n darllen y llithiau yn y gwasanaeth teuluol ym mis Chwefror. Daliwch ati fechgyn! Beth am i ragor o ieuencid ymuno â hwy?

Braf oedd gweld y brodyr Tomos a Jac Evans, eu teulu â'u ffrindiau, ar y rhaglen deledu 'Stwnsh' yn ddiweddar. Druan o dad-cu, Stanley Griffiths, a gafodd ei gyfyngu mewn cawell a'i 'stwnsho' yn ddiidrugaredd!

Llongyfarchiadau i Ben Lewis a dderbyniodd fedal efydd mewn twrnament 'ffensio' yng Nghaerdydd. Pob lwc iddo yn ei dwrnament nesaf yn Wrecsam fis Mai.

Mae'r C.F.F.I. yn dal i fod ar y brig mewn nifer o gystadlaethau, ac felly llongyfarchiadau i Sioned Davies, y Cartws, am ddod yn gyntaf fel Cadeirydd mewn cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Sir o dan 16 oed. Daeth Gwennan Davies yn ail o dan 26 oed. Da iawn wir.

Llongyfarchiadau i Ms Eleri Davies, cogyddes Ysgol Llanwenog, sydd wedi ennill pum seren am ei choginio o'r radd uchaf. Mae'r plant yn gwerthfawrogi'r prydiau dyddiol arbennig iawn, gan nad oes yr un ohonynt yn dod â brechdanau i fwyta yn yr ysgol.

Dymunwn wellhad buan i'r aelodau canlynol: Jim Evans, Frowen; Viria Jones, Gellideg; Bronwen Jones, Greenhill a Daniel Thomas, Ffosffald.

Clwb 100

Rhagfyr - 1.Eleri Davies; 2.Eirlys Jones; 3.Geoff Bone; Bonws: Carys Jones, Wyn Davies, Arwyn Jones a James Fillery.

Ionawr - 1.Nancy Davies; 2.Geoff Bone; 3.Wyn Davies

Dyrchafiad

Llongyfarchiadau i Kevin Thomas, mab Mrs Beryl Lewin, Harlech Drefach, ar ei ddyrchafiad yn Grŵp Gapten yn yr Awyrlu. Dechreuodd ar ei waith newydd ym Mhencadlys NATO yn Northwood yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth y Cyn Uwch Arolygydd David Meurig Davies yn ei gartref yn Llanelli. Cydymdeimlwn â'i frawd Eifion â'r teulu, Afallon, yn eu colled.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth yr aelodau ynghyd i Gapel Brynteg ar gyfer cyfarfod mis Chwefror, a chroesawyd pawb gan Irene Jones yr Is-gadeirydd.

Gorchwyl trist unwaith eto oedd cydymdeimlo â Ieuan Jones, Pwllbylwg a'r teulu, wedi iddo golli'i chwaer, Eirith, yn ddisymwth.

Dymunir diolch yn fawr i Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd am eu rhodd garedig o £100 i'r Gymdeithas Hŷn eleni eto – mae'n help sylweddol i gynnal costau'r Gymdeithas, yn enwedig â thymor y triplau yn cychwyn ym mis Ebrill.

Mr Bifan Morgan, Dôl-ardd, Cwrtnewydd oedd siardwr gwadd y prynhawn, a threuliwyd awr ddiddorol yn gwrando arno'n cymharu arferion byw yn yr ardal dros y trigain mlynedd diwethaf. Mae llawer o'r hen arferion wedi mynd i golli, megis hela C'lennig a 'Blaco' ar Ddydd Calan; prin fod plant yn chwilio am nythod adar erbyn hyn, ac mae'r tractor wedi cymryd lle'r ceffyl, a'r arfer o'u gwisgo ar gyfer y mart a'r ffair yn Llanybydder. Bu'n sôn hefyd am y Sipsiwn a'r Crwydriaid a arferai ymweld â'r ardal, a bu'r aelodau yn ymuno yn y straeon gyda'u hatgofion hwythau.

Diolchwyd yn gynnes i Bifan Morgan gan Irene Jones, ac anogodd ef i gyhoeddi llyfr o'i atgofion. Manteisiodd ar y cyfle hefyd i ddiolch i wragedd Brynteg am baratoi'r lluniaeth.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, Mawrth 7fed, am 1.30 yn Eglwys Llanwenog, pan fydd plant Ysgol Llanwenog yn ein diddanu i ddathlu Gŵyl Dewi.

Gwellhad Buan

Cafodd Nans Davies, Bryndolau, Brynteg, lawdriniaeth i'w chlun yn Ysbyty Llwynhelyg, Hwlfordd yn ddiweddar. Gwellhad llwyr a buan



Cefn (canol): Lowri Davies a enillodd gystadleuaeth creu logo i Gylch Meithrin Gwennog. Hefyd yn y llun mae Sioned Fflur Davies, Wyn Davies, Rhodri Gregson, Harri Rivers, Katie Brown a Chloe Marie Jones a ddaeth yn agos iawn.

i chi.

CFfi Llanwenog

Ar yr 24ain o Ionawr cynhaliwyd cyfarfod agored y Rali. Daeth nifer o bobl i gefnogi ac i drafod, a phenderfynwyd ar drefniadau'r diwrnod. Cadarnhawyd y bydd y Rali yn cael ei chynnal ar Fferm Llechwedd, Llanwenog, ar y 2il o Fehefin a'r Gymanfa ar y 3ydd yn eglwys Llanwenog. Mrs Elonwy Davies, Gwendraeth, Llanybydder, a benodwyd yn llywydd y dydd.

Ar yr 28ain, aeth holl aelodau, cyn-aelodau, arweinyddion a chefnogwyr C.F.F.I Llanwenog i Dyglyn Aeron, i gino blynyddol y clwb. Cafodd pawb noson llawn sbri yng nghwmni'i gilydd, gydag Eifion Morgans yn ein diddanu fel siaradwr gwadd. Gwawr Hatcher enillodd y gwobr fel Aelod Iau y clwb a Gethin Hatcher yn Aelod Hŷn.

Dechreuodd yr aelodau ymarfer ar gyfer cystadleuaeth Pantomeim y sir ar y 30ain o Ionawr, a gwnaeth pawb barhau i weithio'n galed trwy gydol mis Chwefror. Ar nos Lun y 13eg o Chwefror, cynhaliwyd cystadleuaeth Pantomeim C.F.F.I Ceredigion, a'r beirniad oedd Mr Gwyn Elfyn. Clwb Llanwenog agorodd y gystadleuaeth, a bu 14 clwb yn cymryd rhan yn ystod yr wythnos. Llongyfarchiadau mawr i bawb yng nghlwb Llanwenog am ddod yn 3ydd, ac i Carwyn Davies a Gethin Hatcher am gyrraedd rhestr fer yr actorion gorau, i Enfys Hatcher ac Elin Jones a ddaeth i'r rhestr fer am y sgript orau, i bawb a gyfrannodd at y set gan fod y set hefyd wedi'i enwi yn y rhestr fer, ac i Elin Jones a Gwennan Davies am gael canmoliaeth uchel am actio fel pâr.

Bu'r criw panto yn ôl yn Felinfach ar nos Lun y 20fed, yn ogystal â chriw Troed-yr-aur a Thal-y-bont – y tri clwb buddugol. Cafodd Llanwenog hwyl dda arni, a'r gynulleidfa wedi joio mas draw.

Ar ddiwedd y noson cafwyd canlyniadau Aelod Hŷn ac Aelod Iau y flwyddyn. Llongyfarchiadau enfawr i Gwawr Hatcher am ddod yn 3ydd ac i Carwyn Davies am ddod yn 2il.

Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am y clwb ewch ar ein gwefan sef www.cffillanwenog.org.uk

Ysgol Llanwenog

Llongyfarchiadau mawr i Ben Lewis blwyddyn 5 ar ei lwyddiant mewn cystadleuaeth 'fencing' yng Nghaerdydd. Llwyddodd Ben i sicrhau y drydedd wobwr mewn twrnament arbennig yn y brifddinas. Dal ati, ond cadwa'r cleddyf yn ddigon pell o'r athrawon!

Os digwydd i chi edrych ar y rhaglen 'Stwnsh' yn ystod hanner tymor, mae'n siŵr i chi weld Jac Evans o flwyddyn 5 a'i deulu yn cystadlu ar y rhaglen. Bu'r teulu yn brysur yn cystadlu er mwyn ceisio ennill teulu a Wii, ac ar ddiwedd yr wythnos, clywsant iddynt fod yn llwyddiannus – da iawn chi! Braf hefyd oedd gweld nifer o ffrindiau Jac a'i frawd ar y rhaglen gyda hwy.

Croeso cynnes i Mr Hywel Roderick sydd wedi dechrau yn ei swydd fel Pennaeth â gofal yn yr ysgol, rydym yn mawr obeithio y byddwch yn hapus yn ein plith yn Llanwenog. Croeso nôl hefyd i Mrs Sioned Mills yn dilyn ei chyfnod mamolaeth.

Ar ddiwedd hanner tymor ffarweliwyd â Mr Arwel Evans; diolchwn iddo am gyfnod hapus o gydweithio yn yr ysgol, a dymunwn y gorau iddo yn ei swydd newydd yn Ysgol Aberporth.

Cafwyd cystadleuaeth arbennig i greu logo i Gylch Meithrin Gwennog. Y beirniad oedd neb llai na Sali Mali! Llongyfarchiadau i Lowri Davies am ennill y gystadleuaeth, ac i Chloe Marie Jones, Sioned Fflur Davies, Katie

...parhad

Brown, Harri Rivers, Rhodri Gregson a Wyn Davies am ddod yn agos iawn.

Yn ystod yr hanner tymor cafwyd ymweliadau wythnosol gan Janet Hawkins; bu'n cyflwyno'r testament newydd i blant Cyfnod Allweddol 2 mewn dull ymarferol. Diolch iddi.

Cafwyd diwrnod llawn hwyl a sbri yn yr ysgol i ddathlu pen-blwydd yr Urdd yn 90! Bu'r plant yn canu caneuon y jambori, gwisgo dillad coch, gwyn a gwyrdd a chafwyd cacen hyfryd i ddathlu'r pen-blwydd arbennig. Diolch i Mrs Eleri Lewis am baratoi'r gacen wefreiddiol.

Dyma Ddyddiadau Pwysig: Mawrth y 1af – Eisteddfod yr Ysgol, 1 o'r gloch yn Ysgol Llanwenog, Croeso cynnes i bawb. Mawrth 15fed – Casgliad 'Bags For School' – os oes gennych hen ddillad / esgidiau / defnydd, byddem yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad. Cwsglir yn Ysgol Llanwenog. Mehefin 30ain – Diwrnod Hwyl Ysgol Gynradd Llanwenog.

Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.

*Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?
Hoffech chi weinyddu'r wefan?
Neu beth am waith dylunio?
Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant.
Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?*

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes er mwyn cynnig eich gwasanaeth os gwelwch yn dda.

Cellan

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Bruce a Chris Longthorn ar ddathlu eu Priodas Aur ym mis Mawrth. Gobeithio y mwynhewch eich parti yn Neuadd y Mileniwm, Cellan. Pob lwc ac iechyd i'r dyfodol.

Efeilliaid

Llongyfarchiadau i Lilian, gynt o Maesyderi, a Gareth ar enedigaeth efeilliaid, sef Daniel Sion a Delun Aur, brawd a chwaer fach i Beca. Pob dymuniad i chi fel teulu ac hefyd i mam-gu a dad-cu, sef Gerwyn a Frances, Maesyderi.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Owain a Belinda, Glanteifi, ar enedigaeth merch fach, sef Lleucu, chwaer fach i Eira a Mabon. Pob dymuniad da i chi gyd.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Teifina Dawes a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei gŵr, Brian Dawes, gynt o Gellan, a oedd wedi ymgartrefu yn yr Amwythig ers sawl blwyddyn bellach.

RAY Ceredigion

Mi fydd RAY Ceredigion yn cynnal sesiwn mynediad agored am rhad ac am ddim yn lle chwarae'r gymuned, gyferbyn Neuadd y Mileniwm, yn wythnosol drwy gydol 2012. Fe'i cynhelir bob dydd Llun o 20 Chwefror rhwng 4yp a 6yp, ac ar ddydd Mawrth rhwng 11yb a 3yp adeg gwyliau'r ysgol. Croeso cynnes i bawb. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys sleidiau dŵr, adeiladu den, crefftiau, coginio, gwisg ffansi, a siglen rhaff. Mae'r gweithgareddau yn rhad ac am ddim, ac yn cael eu cynnal tu allan yn yr awyr agored, felly cofiwch wisgo'n gynnes!

Sinema

Mae sinema Cellan yn dangos ffilmiau poblogaidd a diweddar yn Neuadd y Mileniwm ar y sgrin 10 troedfedd. Dyma raglen mis Mawrth: 2 Mawrth: Tinker, Taylor, Soldier, Spy (15); 15 Mawrth: My Week With Marilyn (15); 30 Mawrth: Love Never Dies.

Croeso i bawb. Mae'r ffilmiau yn dechrau am 7:45yh, a drysau yn agor am 7:15yh, cofiwch ddod yn gynnar i sicrhau eich sedd. Mae popcorn, losin, pop ac hufen ia ar gael i'w mwynhau.

Croesawn Delyth Morgans i dîm golygyddol Papur Bro Clonc. Mor braf gweld gwirfoddolwyr newydd yn barod i helpu. Diolch am dy waith gyda'r rhifyn hwn ac edrychwn ymlaen i weld ffirwyth dy lafur eto yn y dyfodol agos.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn,
Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambed

01570 422895

S4/C



'Sylla Eirlys yn bryderus ar sgrin ei chyfrifiadur.'

Mae Sain Ddisgrifio ar gael yn Gymraeg ar nifer o raglenni S4C. Mae disgrifiadau o symudiadau a mynegiant yn rhoi bywyd i raglenni ar gyfer pobl sy'n cael trafferth gweld.

Am fwy o wybodaeth am ein gwasanaeth Sain Ddisgrifio cysylltwch â Gwifren Gwylwyr ar 0870 600 4141 neu ewch i s4c.co.uk.

Llanbedr Pont Steffan



Aelodau Adran Yr Urdd Llanbedr Pont Steffan yn dathlu pen-blwydd Urdd Gobaith Cymru yn 90 oed mewn parti Mr Urdd

Cylch Cinio

Cafwyd noson hynod o ddiddorol yng nghwmni'r arlunydd Meirion Jones yng nghyfarfod mis Chwefror. Cyn iddo droi o ddifrif at waith arlunio, bu'n athro Cymraeg am ddegawd. Cychwynnodd ei yrfa yn fyfyrwr yng Ngholeg Celf Caerfyrddin, wedyn ennill gradd ym Mhrifysgol Aberystwyth a gradd M.Phil ym Mhrifysgol Llanbedd am ei waith ymchwil ar dafodiaith. Manteisiodd ar y cyfle i deithio'n eang hefyd, yn arbennig yn Ne America.

Fe'i sbardunwyd fel arlunydd gan arfordir sir Benfro, ac iddo ef, mae dylanwad y tirlun neu'r tirwedd ar allu greadigol pobl yn cael ei amlygu yn eu gwaith – er enghraifft, mewn cerddoriaeth a barddoniaeth yn ogystal â'r celfyddydau gweledol. Yn ei sleidiau o'i baentiadau o'r arfordir ac hefyd y tir a llynnoedd (gan gynnwys Cader Idris a Llyn y Fan Fach, manau sydd yn ysbrydoliaeth arbennig iddo), cyfeiriodd at ddylanwad ffurf tonnog y môr yn ei waith yn ogystal â golau a dŵr.

Y mae pobl hefyd yn un o'i themâu amlwg. Gwelsom ganddo sleid o lun wedi'i gomisiynu i goffâu eisteddfod fawr yr Arglwydd Rhys, ac hefyd sleidiau o luniau nifer o unigolion yn cynnwys ei dad, Aneurin Jones, a Waldo Williams a sawl cymeriad lleol adnabyddus. Yr oedd pobl eraill yn y casgliad hefyd, mewn tafarnau a nosweithiau llawen. I orffen, cawsom ein tywys ganddo o amgylch y 'prom' yn Aberystwyth gyda sleidiau o'r lluniau oedd mewn arddangosfa yn Aberystwyth yn gymharol ddiweddar, rhai yn eu mysg yn amlygu'r elfen fenywaidd sydd hefyd yn ganolog i'w themâu.

Ar wahoddiad y Llywydd y Bnr. Elfan James, y Bnr. Arthur Roderick, aelod sy'n adnabod yr arlunydd yn dda iawn a gynnigodd y diolchiadau. Yr oedd yn fraint iddo wneud hynny 'ar ôl noson i'w chofio' gan ŵr amryddawn iawn, nid yn unig yn

arlunydd o fri ond hefyd yn fardd talentog ac yn gerddor.

Diolch

Dymuna David a Helen Rice ddiolch yn fawr am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau gorau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth eu mab, Harri.

Plaid Cymru

Cyfarfu cangen Plaid Cymru Llanbedr Pont Steffan a'r fro ar 23 Ionawr, ac edrychwn ymlaen at flwyddyn weithgar a phrysur. Etholwyd swyddogion fel a ganlyn - Cadeirydd: Rob Phillips; Trysorydd: Rhys Bebb Jones; Ysgrifennydd: Delyth G Morgans; Swyddog Gweithgareddau: Ann Bowen Morgan. Llawnwydd o'r mwyaf oedd i ni fel cangen ddatgan ein cefnogaeth yn unfrydol i Elin Jones yn y ras am arweinyddiaeth y Blaid. Cafwyd hefyd y cyfle i ddatgan cefnogaeth i ymgeiswyr mewn etholiadau cyngor sir, tref a chymuned, yn ogystal â hel syniadau ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol yn y gwanwyn. Croeso i aelodau newydd neu unrhyw sydd â ddiddordeb gysylltu â'r gangen ar e-bost: plaid.llanbedd@gmail.com neu ffonio Delyth ar 07971 375068.

Merched y Wawr

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Dilwen Roderick, un o'r llywyddion, a chanwyd cân y mudiad i gyfeiliant Elma Phillips.

Dymunodd Dilwen wellhad buan i Aerwen Griffiths yn dilyn ei llawdriniaeth, a llongyfarchodd Janet Evans ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Croesawodd Morfudd Slaymaker ein gŵr gwadd, Mr Emrys Davies o Rydaman. Cafwyd ganddo hanes hynod ddiddorol a doniol ei fywyd, o'i blentynodod hyd y presennol. Soniodd am ei fagwraeth yng Nghellan, ei amser yn ysgolion Cellan a Llanbedd ac am ei yrfa



Gerwyn Jones, Cadeirydd Cymdeithas Cyn-ddiffoddwyr Llanbedd, yn cyflwyno sicc am £250 i Ros Jones ar ran Ambiwylans Awyr Cymru. Codwyd yr arian gyda nosweithiau bingo yng Nghlwb Pêl-droed Llanbedd. Hefyd yn y llun mae Eric Williams ac Arthur Roderick.

gyntaf yn siop Bonmarche cyn mynd, yn fachgen ifanc, i Lundain i werthu blaeth. Bu hefyd yn cadw gwesty B&B yn Norfolk Square. Daeth yn ôl i Gymru i ymddeol.

Diolchodd Avril Williams i Emrys am noson ddifyr a ddaeth â'r hen amser yn ôl i gof llawer ohonom.

Enillwyd y raffl gan Ceinwen Jones. Mair Jones, Mair Richards, Nancy Jones a Ceinwen Jones a fu'n gweini'r te.

Bydd Cinio Dydd Gŵyl Dewi ar nos Lun 12 Mawrth yn y Talardd, Llanllwni. Y gwestai fydd Ann Thorne. Bydd bws yn gadael maes parcio'r Rookery, Llanbedd am 6.45.

Shiloh a Soar

Y Parchedig Mathew Hill, Caplan ym Mhrifysgol Dewi Sant yma yn Llanbedd, oedd y gwestai yn y Gymdeithas Ddiwylliadol ar brynawn Gwener, 10 Chwefror. Cafodd ei addysg yn ysgol Brynteg, Pen-y-Bont ar Ogwr, cyn mynd ymlaen i raddio mewn hanes. Testun ei ddarlith oedd hanes rhyfeddol gwersyll y carcharorion, Island Farm, ger pentref Ewenni ym mro Morgannwg. Agorwyd y gwersyll yn ystod yr ail ryfel byd, ac ar un adeg roedd dros 1600 o garcharorion

Almeinig yn bresennol. Bu yna ymdrech aflwyddiannus i ddianc ar sawl achlysur ond nid oedd yn hawdd gan fod yna gyfyngu ar betrol ac roedd teithio ymhell yn anodd. Roedd llywydd y prynhawn, Owen Jones, yn ymwybodol o'r llyfr a gafodd ei gyhoeddi ar Island Farm yn olrhain yr hanes o'r cychwyn cyntaf. Fe wnaeth y gwersyll ddenu nifer o enwogion yn eu tro, gan gynnwys yr Arlywydd Eisenhower a nifer o uwch swyddogion y fyddin. Ar ôl i'r rhyfel ddarford, fe wnaeth rhai o'r carcharorion briodi ac ymgartrefu yng Nghymru a chyfrannu'n helaeth at waith ar ffermydd a diwydiannau lleol. Mae'r safle bellach wedi'i ddymchwel er mwyn codi tai. John Phillips gafodd y fraint o ddiolch am gyfarfod hynod ddiddorol ac am waith ymchwil trwyadl y siaradwr.

Gyrfa Chwist Cartref Hafan Deg

Ar 1af o Chwefror cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gydag Iorwerth Evans, Llanybi, yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn: Dynion - 1af: Peggi Davies, Brohenllys, Felinfach. Cydradd 2ail: Ray Jenkins, Llanybydder a Mary Jones,

Llanbedr Pont Steffan

Stryd y Bont, Llambled. Merched - 1af: Dilwen Roderick, Stryd y Bont, Llambled. 2ail: Catrina Davies, Aberaeron. 3ydd: Nancy Davies, Heol y Wig, Llambled. Carden Miniature: Dynion: Maggie Vaughan, Felinfach. Merched: Mair Davies, Pensinrig, Cellan.

Bwrw Allan - Enillwyr: Joan Lewis, Llambled ac Ifan John Jones, Felinfach. 2ail: Nancy Davies, Llambled a Ray Jenkins, Llanybydder.

Enillwyr 15fed o Chwefror: Dynion - 1af: Dai Davies, Pensinrig, Cellan. 2ail: Peter Jones, Llambled. 3ydd: Harry Williams, Ystrad Aeron. Merched - Cydradd 1af: Morfudd Slaymaker, Llambled a Ruth Davies, Tregaron. 2ail: Nancy Davies, Heol y Wig, Llambled. Carden Miniature - Dynion: Iorwerth Evans, Llangybi. Merched: Kerry Lloyd, Ffostrasol. Bwrw Allan - Enillwyr: Beryl Roach, Felinfach a Mary Davies, Llanwnnen. 2ail: Joan Lewis, Stryd y Bont, Llambled a Dai Davies, Cellan.

Bydd Gyrfaoedd Chwist mis Mawrth ar y 14eg a'r 28ain. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Mr Dai Phillips, 19 Ffynnonbedr, ddiolch yn gynnes i bawb am yr holl gardiau, galwadau ffôn, galwadau yn y cartref a dymuniadau da a dderbyniodd yn dilyn cyfnodau yn ysbytai Glangwili a Threforys yn ddiweddar. Gwerthfawrogi y cyfan yn fawr iawn.

Diolch

Dymuna Janet, Haulfryn, 1 Maesyllan, ddiolch yn ddiffuant i bawb am wneud achlysur ei phen- blwydd yn 70 oed yn un i'w gofio. Diolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, anrhegion a blodau. Hoffai ddatgan ei gwerthfawrogiad arbennig i aelodau a rhieni Ysgol Sul Noddfa am y gacen syrpreis cynnar. Diolch o galon i chi gyd yn Llambled a'r fro.

Priodas Aur

Hoffai'r teulu ddymuno pen-blwydd priodas hapus i Gerwyn a Mary, Landre, ar 31 Mawrth - edrychwn ymlaen at y dathliad. Llongyfarchiadau ar achlysur arbennig iawn.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Ysgol Sul Noddfa

Anaml iawn y gwelir Janet yn fud, ond dyna a gafwyd yn yr Ysgol Sul ar 3 Chwefror pan agorwyd drws y festri i ddatgelu Llinos a Rhian gyda chacen pen-blwydd cynnar iddi - cafodd



Janet yn mwynhau dathliad pen-blwydd gyda phlant Ysgol Sul Noddfa.

sioc enfawr, a dweud y lleiaf! Wedi dod dros ei syndod bu'n torri'r gacen hardd oedd ar ffurf rhif 70 - roedd edrych arni yn tynnu dŵr o'r dannedd. Derbyniodd y plant a'r oedolion sleisen yr un ac roedd pawb wrth eu bodd ac yn uchel iawn eu canmoliaeth o gwca Avanna ac addurno celfydd Llinos. Syrpreis arall i Janet oedd derbyn carden liwgar o waith y plant yn cynnwys cyfarchion di-ri oddi wrth aelodau a chyn-aelodau'r Ysgol Sul, ynghyd ag anrheg hyfryd oddi wrth yr aelodau presennol. Bu'n Ysgol Sul gwahanol i'r arfer!

Mae'r plant wrthi ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer Oedfa'r Ifanc a gynhelir ar Sul y Mamau, sef 18 Mawrth. DALIER SYLW: Bydd yr oedfa am 9.45 y bore ac nid yn y prynhawn. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Mae'r Ysgol Sul yn cwrdd bob nos Wener yn ystod tymhorau'r ysgol o 3.45 hyd 4.45 o'r gloch. Mae croeso i unrhyw un o bedair oed i fyny ymuno â ni. Os am fanylion pellach, cysylltwch os gwelwch yn dda â Llinos neu Janet.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Cari Lake, The Haven, Maesyllan, un o deipyddion Clonc, ar ennill y Goron yn Eisteddfod Ysgol Gyfun Llanbedr yn ddiweddar. Da iawn ti Cari, a phob lwc i'r dyfodol gyda'r sgrifennu.

Cymdeithas Hanes

Daeth nifer dda ynghyd i gyfarfod mis Chwefror; croesawyd pawb gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, a braf oedd croesawu sawl aelod newydd.

I ddechrau'r noson, cyflwynodd Hazel Thomas, sy'n gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol, fraslun o'r prosiect 'Casgliad y Werin', sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i ddod at ei gilydd i adrodd eu hanes, a bydd hyn yn creu casgliad o gofnodion arbennig ar gyfer y dyfodol. Bydd cyfle i pobol Llambled

a'r cylch ddod i Neuadd Fictoria rhwng 11 y bore a 4 y prynhawn ar ddydd Llun, Mawrth 12fed, i rannu eu profiadau. Dewch ag hen luniau teuluol ayb i'w sganio a'u cofnodi.

Yr Athro David Austin oedd siaradwr gwadd y noson, a bu'n sôn am waith cyffrous iawn sy'n digwydd yn y Gerddi Botaneg yn Llanarthne, o dan nawdd Cronfa Treftadaeth y Loteri. Mae olion y tŷ a godwyd gan Paxton yn y gerddi, ond wrth chwilio mewn cae cyfagos yn 1999, daethpwyd o hyd i deilsen grib (ridge tile) o gyfnod cynt. O ganlyniad i hyn, mae'r ddaear o gwmpas yn cael ei harchwilio. Mae cofnodion geoffiseg a darluniau o'r awyr yn dangos fod tŷ yno gynt o'r enw Middleton Hall, gyda gerddi crand a chyfres o erddi dŵr yn y maes gerllaw. Yn wir cofnodir hwn ar fap sy'n dyddio o 1728.

Mae'n amlwg fod y teulu Middleton wedi gwneud eu ffortiwn yn sgil cysylltiad tri o'r brodyr â Chwmni'r India Dwyreiniol (East India Company), gan gludo perllysiau megis nytmeg a 'mace' o'r dwyrain i'r gorllewin, gan wneud elw sylweddol. Rhyfedd meddwl fod y Gerddi Botaneg wedi'u sefydlu ar dir y Middletons, a'r diddordeb mewn planhigion prin yn dal yno.

Cafwyd cylch cyflawn i'r stori, oblegid un o sefydlwyr Llyfrgell y Coleg yn Llambled oedd Thomas Phillips - roedd ef ei hun yn llawfeddyg gyda Chwmni India'r Gorllewin, ac roedd sawl un o'r darluniau a welwyd ar y sgrin ar y noson wedi dod o'i gasgliad ef.

Diolchwyd yn gynnes i David Austin am noson hynod o ddiddorol gan y Cadeirydd, ac anogodd pawb i gofio am y diwrnod yn y Neuadd Fictoria ar Mawrth 12fed.

Bydd cyfarfod nesa'r Gymdeithas nos Fawrth, Mawrth 20fed, pan fydd Iwan Meical Jones yn adrodd hanes John Thomas, y ffotograffydd enwog a anwyd yng Nghellann. Croeso cynnes i bawb.

Ceris Jones
yn trin gwallt yn eich cartref



Torri a sychu, steilo a lliwio,
cwirio a gosod gwallt ar gyfer
achlysuron arbennig.

Prisiau rhesymol a
Diwrnod gostyngiad i'r henoed
Ffoniwch: 07738 492613

Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

W.D. Lewis
a'l Fab

Masnachwyr / Amachyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

LING DI LONG

Bwyty Tsieinaidd a Chludfwyd
13 Stryd y Bont, Llambled
01570 422009



Ar agor:
12:00-14:30 a 17:00-23:00

Cynigion arbennig bwffe
ac amser cinio

Darllenwch ein bwydlen
a'n cynigion arbennig ar Facebook

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHIWR,
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.



CONTI'S

Mae hufen iâ Conti's
Y gorau yng Nghymru,
Nid oes un blas tebyg
I'w gael yn un lle;
Mae rysait braf Leno
Yn dal y dychymyg,
Mae'n hyfryd, mor hyfryd,
Uchafbwynt y dre'.

Mae Gillian Elisa
A'i brawd Alun Thomas,
Yn hoffi cael paned
Yn Conti's bob tro...
Pan ddôn nhw i siopa,
Neu gerdded yn Llanbed,
Yn ffenest fawr Conti's
Mi welch nhw 'co.

Pan ddowch chi i Lanbed,
Bydd croeso yn Conti's,
Mae'n hafan myfyrwyr
Ar ochor y stryd;
Na, peidiwch mynd heibio
Heb flasau dirgelwch,
Yr hufen iâ gore
A'r croeso'r un pryd!

Conti's

Mae hufen iâ Conti's Y gorau yng Nghymru, Nid oes un blas

6 tebyg I gael yn un lle: Mae rysait braf Leno, Yn dal y dy

12 chymyg Mae'n hyfryd, mor hyfryd Uchafbwynt y dre.

Pencarreg



Yr Urdd yn dathlu 90 oed

Eleni mae'r Urdd yn dathlu 90 mlynedd oddi ar i Syr Ifan ab Owen Edwards sefydlu'r mudiad. Ar ddydd Llun, 23 Ionawr 2012, aeth Efa Gruffydd Jones, Prif Weithredwr y mudiad, gyda phum aelod o Urdd Gobaith Cymru i gyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Cheryl Gillan. Cawsant dynnu'u llun tu allan i ddrws enwog rhif 10 Stryd Downing, yn ogystal ag ymweld â Dafydd Wigley yn San Steffan a sgwrsio â Jonathan Edwards, Aelod Seneddol Dwyrair Caerfyrddin a Dinefwr. Oherwydd ei hymroddiad i'r Urdd dros y blyneddau ac iddi fod ynghlwm wrth brosiect Trafodiaith yn ddiweddar, cafodd Sian Elin Williams, Muriau Gwyn, Pencarreg y cyfle i fynychu'r daith i Lundain.

Sbwriel

Nid wyf yn angel fy hun o bell ffordd OND pa bryd y buoch chi ar yr hewl rhwng Cwmann a Llanybydder ddiwethaf? Wnaethoch chi sylwi a rhyfeddu at yr holl sbwriel sydd yn anharddu a llygru'r cloddiau? Beth sydd wedi mynd o'i le? Poteli gwydr, poteli plastig, caniau, papurau, blychau dal sglodion, cydau mawr cyfan yn llawn sbwriel a budreddi. Cofiaf fy mhlentynod yn y pumdegau mor wahanol i'r hyn a wel plant heddiw. Dyma beth yw esiampl wael iddynt, ac mae cywilydd arnaf! Rwy'n cofio mor hardd oedd y cloddiau yr adeg honno, yn llawn blodau, pryfetach, creaduriaid bychain, hymian gwenyn a deiliach, a'r holl awyr yn aroglu'n felys; roedd pob man yn lliwgar, roedd yn nefoedd fach ar wyneb daear. Beth allwn ni ei wneud i ddatrys y problem, neu ydy pawb yn siglo'u pennau, yn twt-twtian ac wedi rhoi i fyny pob gobaith i droi'r cloc yn ôl?



Protestio

Daeth tyrfa luosog o dros ddeugain o bobol o bob oed at ei gilydd ger arosfan y bws ym Mhencarreg i brotestio, wedi clywed bod bws Arriva X40 sy'n mynd trwy'r pentref yn ddyddiol yn mynd i gael ei ddileu yn gyfangwbl. Pwy sy'n gyfrifol am y penderfyniad hwn? Mae pobol Pencarreg yn hollol ddibynol ar y bws i'w cludo i Lamber a Llanybydder i gasglu'u pensiwn, negeseuon, talu biliau dŵr, a nifer o bethau eraill. Roeddwn i'n meddwl bod y Dr Beeching wedi'i gladdu ond mae fel petai ei fod wedi'i atgyfodi i sarnu bywydau pobol eto yn yr ardal. Mae'n debyg fod y bws i'w arallgyfeirio ar hyd ffordd Llanwnnen, wel pam nad teithio ar y naill ffordd trwy Pencarreg? Does dim eisiau mynd mor aml chwaith, cadw'r drefnidiaeth a defnyddio ychydig o synnwr cyffredin sydd eisiau a meddwl am bobol llai ffodus!

Eira

Un o hoff ddiddordebau Geraint, Muriau Gwyn, yw tynnu lluniau'r ardal. A'r eira'n disgyn yn ddiweddar, dyma fe'n mynd i fyny i Fynydd Pencarreg i fwynhau'r golygfeydd godidog. Yma gwelwn hen ffordd yn arwain i gopa'r mynydd dan garthen o eira gwyn. Diolch Geraint am i ni gael rhannu'r olygfa hyfryd yma gyda thi.



Llangybi a Betws



Tîm siarad cyhoeddus CFfl Bro'r Dderi yn ennill cwpan y tîm gorau yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus (darllen) dan 14 oed CFfl Ceredigion a gynhaliwyd yn Felinfach yn ddiweddar. O'r chwith: Carys Mair Jones, Kelly Jones a Delyth Evans. Delyth oedd enillydd cwpan y siaradwr gorau dan 14 oed a hi hefyd oedd cadeirydd gorau'r adran.

C.Ff.I. Bro'r Dderi

Llongyfarchiadau i'r aelodau a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Ysgol Uwchradd Llambled yn ddiweddar. Roedd presenoldeb aelodau'r Clwb yn amlwg iawn ar y llwyfan drwy gydol yr ŵyl. Braf oedd gweld ein hysgrifenyddes, Elin Gwyther yn gapten ar 'Dulas' a ddaeth yn fuddugol. Mae'n amlwg bod llenorion o fri yn y Clwb gan fod Cari Lake wedi ennill y goron o dan y testun 'Home' a Gethin Morgan wedi cipio'r gadair am gerdd Gymraeg ar y thema 'Fflam'. Da iawn chi. Mae'r dyfodol yn argoeli'n llwyddiannus iawn i'r Clwb.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â Mr Gwynfor Evans, Cilgwyn Uchaf, yn ei brofedigaeth lem o golli'i frawd Dai yn Aberystwyth. Yr un modd cydymdeimlir â'r holl gysylltiadau teuluol eraill yn eu galar.

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â holl gysylltiadau teuluol y diweddar Miss Mabel Pugh yn eu profedigaeth.

Merched y Wawr

Cyfarfu'r gangen ar Chwefror 8fed yn yr ysgol gyda'r Llywydd Lettie Vaughan yn y gadair. Gŵr gwadd y noson oedd y Bon. Gerald Morgan a threuliodd orig hapus yn ei gwmni. Roedd yn noson hyfryd, hamddenol a gwahanol i'r arfer, ond yn noson gofiadwy. Cynigiwyd pleidlais o ddiolch yn wresog iddo gan Irene Lewis. Rhoddwyd gwobrau raffl gan Eleanor Evans ac Iris Quan ac fe'u henillwyd gan Gerald Morgan ac Irene Lewis. I ddiweddu'r cyfarfod cawsom banded o de a bisgedi wedi'u cyfrannu gan Gwyneth Evans ac Irene Lewis. Bydd y cyfarfod nesaf yn y Pantri i ddathlu Gŵyl Ddewi. Y gŵr gwadd fydd y Bon. Emyr Llywelyn. Byddwn yn barod i fwyta am 7.00 o'r gloch.

Hamdden

Cyfarfu'r aelodau yn Ysgol y Dderi gyda'r Llywydd Janet Farrow yn y gadair. Croesawyd pawb yn wresog i'r cyfarfod, a mynegwyd ein dymuniadau gorau i'r rhai oedd yn anhwylyd. Jennifer Matthias oedd y wraig wadd a chafodd groeso cynnes gan y gynulleidfa. Cawsom sgwrs addysgiadol, yn ogystal â chyflwyniad lluniau, yn ymwneud â cherrig sydd i'w gweld yng Ngheredigion, gan gynnwys y garreg filltir ger Greenwell, Ffynnon Cybi a Glanbrechan (Maesyfelin), ac un ger y ffordd fawr yn Llanon. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gan Rowena Williams i'r wraig wadd am orig ddifyr ar hanes lleol. Cafwyd paned o de a bisgedi wedi'u paratoi gan Janet Farrow a Liz Holgate. Enillwyd y raffl gan Ceinwen Jones, Morina Davies, Margaret Jones, Mair

Spate, Rowena Williams, Linda Jones, Victoria Farrow a Gwenda Thomas. Bydd y cyfarfod nesaf adeg y Cawl yn y 'Castle' ar Fawrth 2ail am 12.30 o'r gloch.

Adferiad

Dymunir adferiad llwyr a buan i Mr Gwynfor Evans, Cilgwyn Uchaf, ar ôl iddo dreulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais. Brysiwch wella.

Ysgol Y Dderi

Roedd pawb yn falch dros ben i glywed y newyddion cyffrous am enedigaeth eifeiliaid Miss Lilian ddiwedd mis Ionawr, a braf iawn yw cael ei llongyfarch hi a Gareth. Mae'n siŵr fod Beca wrth ei bodd hefyd gyda'i brawd a'i chwaer newydd. Croeso cynnes i Delun Aur a Daniel Siôn, a'r dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

Fel miloedd o blant Cymru, bu aelodau Urdd yr ysgol yn dathlu pen-blwydd Urdd Gobaith Cymru yn 90 oed mewn parti yn ddiweddar. Mae'r plant yn ffodus fod ganddynt y cyfle i ymuno â'r mudiad arbennig hwn ac i fwynhau'r holl weithgareddau sydd ganddo i'w gynnig. Cawsom ddigon o hwyl a sbri ar y noson, yn dawnsio, canu a rhannu cacen pen-blwydd blasus. Diolch i bawb a fu'n helpu.

Dathliad arall a gafodd sylw gennym oedd y Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd. Ymunodd criw o fyfyrwyr o Goleg Llambled â ni am fore, ac o dan eu harweiniad nhw, bu'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau addysgiadol er mwyn dysgu am yr ŵyl. Ymysg y gweithgareddau, roedd dysgu cân Tsieiniaidd i gyfarch y flwyddyn newydd, dysgu am draddodiadau'r wlad, a chreu draig liwgar. Cawsom ginio arbennig hefyd oedd yn cyd-fynd â thema'r diwrnod.

Gwnaethpwyd casgliad 'Bags 2 School' yn ddiweddar er mwyn codi arian at gronfa'r ysgol, a hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd.

Yn ystod y mis diwethaf mae dwy fyfyrwraig ail flwyddyn o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi ymuno â ni ar gyfer eu profiad ymarfer dysgu. Yn nosbarth Blwyddyn 3 mae Miss Ffion Haf Davies, a Miss Lona Harris ym Mlwyddyn 5. Croeso i'r ddwy ohonynt a gobeithio y byddant yn mwynhau'u hamser gyda ni.

Ar yr 8fed o Chwefror daeth y bardd Eurig Salisbury i ymweld â'r ysgol. Ef yw Bardd Plant Cymru am eleni, a chafodd plant a staff Blwyddyn 6 weithdy hwyliog a diddorol yn ei gwmni. Pwy â ŵyr, efallai fod gan Mrs Heini un o feirdd y dyfodol yn ei dosbarth ... cawn weld!

Cohebiaeth Clonc

Annwyl Olygydd

Cyfle Gwych i Hyrwyddo eich Busnes

Mae'r gwaith wedi cychwyn ar roi trefn ar Ddyddiaduron 2013 Y Lolfa. Mae'r Dyddiaduron yn cynnwys Cyfeiriadur defnyddiol o fusnesau a sefydliadau Cymreig. Os ydych am i'r Lolfa gynnwys gwybodaeth am gwmni neu gymdeithas newydd yn ein Cyfeiriadur neu os ydych am ddiweddarau neu ddileu gwybodaeth mae croeso i chi gysylltu â mi neu fynd i'r adran Cyfeiriadur Cymreig ar wefan Y Lolfa: <http://www.ylolf.com/cyfeiriadur>

Bydd, fel arfer, yna gyfle i hysbysebu tu mewn ac ar glawr y dyddiaduron A5, A4 a phoced Y Lolfa. Os am dderbyn taflen delerau mae croeso i chi e-bostio sonia@ylolf.com neu fy ffonio ar 01970 832304.

Yn gywir *Sonia Hughes*

Carpedi

Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog

Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAN,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled

☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Taith Cymdeithas Edward Llwyd yn ardal Parcyrrhos



Parcyrrhos oedd man cychwyn taith y gymdeithas ar fore gwlyb a gwyntog ar 18 Chwefror. Ymgasglodd tua deugain o aelodau a thrigolion plwyf Pencarreg i gychwyn y daith a gweld arddangosfa fach o weithgarwch y Gymdeithas. Dyma ymgais gyntaf Alun Jones, Glanrhyd i drefnu taith a chafwyd hanesion diddorol ganddo.

Soniodd am eglwys Bentref Parcyrrhos sydd yn dyddio nôl i'r ddeunawfed ganrif gyda phrawf pendant am Ddeunant a Glanrhyd tua'r flwyddyn 1750.

Wrth law roedd Nant Eiddig sydd yn llifo mewn i'r Teifi rhyw filltir islaw. Cafodd sawl esboniad i'r enw Eiddig. Un ystyr yw cenfigennus neu all olygu gwres neu glae ar ond mae'n ymddangos mai enw person sydd yma, ac enw person wedi ymledu yn enw nant. Ceir hanes am Gwm Eiddig yn Nantmel, Sir Faesyfed (1752), Gwern Eiddig yn Rhaglan, Sir Fynwy, a Hafod Eiddig (1619) yn Sir Dinbych. Mae Nant Eiddig yn codi ar fynydd Pencarreg, Sir Gaerfyrddin ac yn llifo trwy Goed Eiddig i Deifi islaw Llanbedr Pont Steffan. Ceir trafodaeth ar 'Eiddig' gan R J Thomas yn Enwau Afonydd a Nentydd Cymru ond ni nodir enw tarddle'r nant. Nid yw enw'r tarddle ychwaith wedi ei nodi ar fapiau'r Arolwg Ordnans. Mae Llyfr Degwm plwyf Pencarreg (1842) yn nodi enwau'r caeau canlynol yng nghyffiniau'r tarddle, bob un ohonynt yn cynnwys elfen sy'n gysylltiedig a dŵr tardd: 1015 Pant y Pistyll, 998 Cae pistyll, 1006 Cae ffynnon. Mae'r unig gofnod penodol y gwyddys amdano ar hyn o bryd sy'n enwi union darddle Nant Eiddig yn digwydd yn 1870 a hynny mewn glos wrth linell o gerdd o waith bardd lleol anadabyddus sef Camber (Thomas Beynon, Mountain Cottage, Pencarreg). Argraffwyd y gerdd yng Nghyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Caersalem, Parc y Rhos, a gynhaliwyd ddydd Gwener y Groglith, 1870. Dyma'r llinell ynghyd a'r nodyn:

*O dyd darddle yn Nghorsfigan**

*Corsfigan, ydyw enw y ffynnon o ba un y tardd yr Eiddig o honi, yr hon sydd ar fynydd Pencarreg, a cherllaw y ffordd fawr sydd yn mynd o Llanbedr Pont Steffan i Llanymddyfri. Nid yw ei hyd ond tua their milltir, pryd yr abera ar Teifi, ar o lei thaith fer trwy gwm cul, ond prydferth, ac y mae yn hyfryd yr olwg arni o bentref Parc y Rhos, heibio pa un y rheda, hyd nes yr yfir hi gan y Teifi, tua milldir islaw

capel Caersalem.

Ceir hanes am Glanrhyd – cartref cynnar eglwys Caersalem a Bethel Parcyrrhos ond ym mis Gorffennaf 1840 mynegodd rhai eu dymuniad am gael eu bedyddio, ac ar y parc hwn y dechreuodd yr ymrannu rhwng y ddwy eglwys.

Bu'r brodorion lleol yn ymladd am ddeng mlynedd i gael pont dros yr afon Eiddig ac yn 1908 penderfynodd Cyngor Gwledig Llanybydder ei hadeiladu. Galwyd yr hewl y pryd hwnnw yn 'Williams Highway'. Ar ochr uchaf ac islaw'r bont mae na ddwy ryd, ac ar y rhyd uchaf yr oeddent yn bedyddio, gan wneud argae bren ar draws yr afon. Gwelwyd y bedydd olaf tua 1930.

Cafwyd hanes am ddau wyddonydd oedd yn byw yn y parthau yma, sef Dr W J Rees Tancoedeiddig a oedd yn milofyddiaeth swoleg, a

Dr W P Jones Ddeunant, mathemateg ac aerodeinameg oedd ei bwnc ef. Dr Barns Wallis yn unig sy'n derbyn y clod am y 'bouncing bomb', ond roedd W P Jones yn un o'r rhai a weithiodd ar y prosiect.

Gellifach – yma roedd tyddyn saith erw a rhyw bedwar o dai cyffredin. Pantybyr – yma roedd storfa ddŵr yn rhoi cyflenwad dŵr i bentref Parcyrrhos cyn 1951, ac wrth ddod allan i'r ffordd buom yn troedio hen ffordd y porthmyn o Sir Aberteifi tua Esgairdawe a Llandeilo. Gellifelen – dyma enghraifft arbennig o gadwraeth yng nghefn gwlad.

Tangaer – Cartref Hannah Davis a chafodd ei llofruddio gan ei chariad Daniel Evans ochr draw mynydd Pentaseithin ger fferm Panyerwys ar fore Sul Mehefin 14 1829.

Wrth gerdded cawsom ein addysgu o wahanol rywogaethau byd natur gan Ieuan Roberts ac roedd ffwng niferus ar y daith, megis ysgubor y wrach, ymenyn yr eithin, dafad goch, ac ysgwydd y fedwen.

Dymuna Alun ddiolch i Athro David Thorne am esboniad o'r enw Eiddig ac i'r tîrfeddianwyr am bob cymorth wrth lunio'r gylchdaith hon.

Tybed os gan rywun arall esboniad i'r enw Cors Figan? Gol.



Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

6		5		3	1		
	1	8	9		6		
9							2
3			4	6			
				9			
				5	7		8
7							5
			8		1	9	4
		4	5			8	3

Atebion Swdocw mis Chwefror:

Llongyfarchiadau i: Morwen Thomas, Maesllan, Llanbed ac i bawb arall am gystadlu: Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder; Arwel Jones, Gwrdd, Stags Head; Eirlys Davies, Eurfann, Llanybydder; Ellie Davies, Golygfa'r Llyn, Abergwili; Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Rob Phillips, Barley Mow, Llanbed a Bryn Hughes, Cwmere, Felinfach.

6	8	2	3	5	9	7	4	1
9	7	3	4	1	2	8	5	6
1	5	4	6	7	8	3	2	9
5	6	9	7	3	4	2	1	8
8	2	1	9	6	5	4	3	7
4	3	7	2	8	1	6	9	5
3	1	5	8	2	6	9	7	4
7	4	8	5	9	3	1	6	2
2	9	6	1	4	7	5	8	3

Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

Ffynnonbedr

Bu nifer o rieni'r dosbarth Meithrin yn gwneud sesiynau 'Iaith a Chwarae' yn y Meithrin a diolch i Emma Jones am drefnu.

Llongyfarchiadau i Stephanie Nash, Cynorthwy-ydd Dysgu yn yr ysgol, ar enedigaeth mab, a dymuniadau gorau iddynt i gyd fel teulu.

Cynhaliodd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon noson Bingo gyda Harold wrth y llyw, a diolch i bawb a gefnogodd mewn unrhyw fodd.

Bu'r Bws Coginio yn ymweld â'r ysgol gan roi cyfleoedd i ddisgyblion blyneddoddd 4, 5, 6 a 7 i goginio arni. Cafwyd llawer o hwyl a sbri.

Cafodd disgyblion blwyddyn 6 gyfle i wneud cwrs ar ymwybyddiaeth alcohol ar ffurf drama a daeth y rhieni i'r ysgol i wylu'r perfformiad a grëwyd gan y plant. Bu'r gweithgaredd yn un buddiol tu hwnt a diolch i Sandra, Delyth a Reuben a fu'n cydweithio â'r disgyblion.



Bu'r ysgol gyfan yn dathlu pen-blwydd mudiad yr Urdd yn 90 oed. Cafwyd cinio arbennig a jeli coch, gwyn a gwyrdd; diolch i Mary a staff y gegin am eu parodrwydd i ddarparu hyn. Yn ogystal, bu staff yr ysgol yn paratoi gweithgareddau amrywiol i'r disgyblion – gwaith celf, coginio, dawnsio gwerin a chreu hetiau, a diolch iddynt.



Llongyfarchiadau i dîm gymnasteg yr ysgol ar gipio'r wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth y sir – Lowri L, Kaleigh, Samantha, Lowri D, Felipe, Lauren, Grace, Mari, Charlotte, Rhys D, Dion, a'r eilyddion Chloe a Rhys. Llongyfarchiadau hefyd i Charlotte a Mari ar ennill y parau, i Charlotte, Mari a Samantha am ennill y triawd, ac i Felipe a Charlotte ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth yr unigolion. Diolch i Mr Rees am eu hyfforddi ac i Mrs Price a Mrs Hill am fynychu'r gystadleuaeth a chynorthwyo.

Mynychodd Iestyn Evans, Tomos Jones ac Osian Jones y Sgwad Sgwennu yn Aberaeron yn ddiweddar lle cawsant gyfle i weithio gyda Bardd Plant Cymru, sef Eurig Salisbury – profiad gwerthfawr iddynt.

Cyfarfu'r Cyngor Ysgol ar y cyd â'r sector Uwchradd a chafwyd trafodaethau buddiol iawn a diolch i N Davies am eu trefnu.

Ysgol Gyfun

Unwaith eto eleni, amlygwyd talentau disglair disgyblion Ysgol Gyfun Llanbed yn yr Eisteddfod flynyddol a gynhaliwyd ar y 9fed a'r 10fed o Chwefror. Gwelwyd cystadlu brwd rhwng y tri thŷ sef Creuddyn, Dulas a Teifi. Y beirniaid eleni oedd Meleri Williams (Cerdd), Rhodri ap Hywel (Llefaru), Elinor Howells (y Gadair), a Gareth Lloyd Roberts (y Goron). Yn ystod y diwrnod a hanner o gystadlu, cyfeiriodd y beirniaid at safon eithriadol o uchel y cystadlaethau llwyfan a'r cynnyrch a ddaeth i law yng nghystadlaethau'r Goron a'r Gadair. Bwrodd nifer o feirdd ati eleni i

ymgeisio am y Gadair ar y testun 'Fflam'. Enillwyd y Gadair gan Gethin Morgan o dŷ Creuddyn. Cipiodd Llion Thomas o Ddulas yr ail safle a Daniel Edwardes o Deifi'r drydedd wobwr. Roedd y Gadair yn rhoddedig gan Lina Williams o Aberaeron, er cof am Siân Watkins, ei chyfnither. 'Home' oedd thema cystadleuaeth y Goron. Cari Lake o dŷ Teifi oedd yn fuddugol, tra dyfarnwyd Carwen Richards o Ddulas yn ail a Libby Jones o Greuddyn yn drydydd. Braf oedd gweld capteiniaid y tri thŷ sef, Sioned Davies a Gethin Davies (Creuddyn); Elin Gwyther a Christy Gale (Dulas); Cari Lake a Vaughan Evans (Teifi) ynghyd â'u his-gapteiniaid a chefnogwyr, yn cydweithio'n arbennig o dda yn ystod cyfnod y paratoi, a'r Eisteddfod ei hun, er mwyn sicrhau eitemau safonol ac amrywiol. Ar ddiwedd y cystadlu, Dulas ddaeth i'r brig gyda 517 o bwyntiau, Teifi yn ail gyda 512 a Creuddyn yn drydydd gyda 447 o bwyntiau. Teifi enillodd y cystadlaethau gwaith cartref hefyd.

Nos Iau, y 9fed o Chwefror, cynhaliwyd cyngerdd 'Pigion yr Ŵyl', gyda neuadd lawn yn tystio i wledd amrywiol a difyr o eitemau, megis yr unawdau, deuawdau, meimiau, sgetsys, darnau offerynnol, grŵp pop a'r dawnsio disgo – rhywbeth at ddant pawb! Gallwn ymfalchïo yn safon uchel y perfformiadau a bwrllwm afieithus y disgyblion. Talodd y prifathro, Dylan Wyn, deyrnged uchel i'r disgyblion a fu wrthi'n ddyfal ac yn frwdfrydig yn paratoi at yr Eisteddfod. Diolchodd yn ddiffuant i'r staff hefyd, yn arbennig Mrs Gillian Hearne a Mrs Delor James am drefnu a goruchwylu'r cyfan, i arweinwyr y noson, ein prif swyddogion – Daniel Edwardes a Carwen Richards – am eu cyflwyniadau graenus ac am eu gwaith caled yn ystod yr holl flwyddyn ac i Miss Mattie Evans a bois y sain a'r llwyfan am eu gwaith caled a phroffesiynol. Yn wir, diolch i bawb a sicrhodd Eisteddfod lwyddiannus arall a erys yn y cof am amser hir.

Dyma ganlyniadau cystadlaethau'r llwyfan: Grŵp Pop - Dulas; Stori a Sain - Creuddyn; Dawnsio Disgo - Teifi; Sgets - Dulas; Meim - Teifi; Unawd Offerynnol Iau - Gareth Jones (C); Unawd Offerynnol Hŷn - Delun Davies (T); Llefaru Cymraeg Iau - Iwan Evans (C); Llefaru Cymraeg Hŷn - Lowri Elen Jones (C); Unawd Merched Iau - Natalie Plant (D); Unawd Merched Hŷn - Lowri Elen Jones (C); Unawd Bechgyn Iau - Meirion Thomas (D); Unawd Bechgyn Hŷn - Ianto Jones (C); Deuawd - Sophie a Lauren Jones (C); Areithio - Nia Gwyther (D); Parti Merched - Teifi; Parti Bechgyn - Creuddyn; Côr - Creuddyn. Enillodd y canlynol wobrau hefyd: Cwpan y cerddor gorau - Gareth Jones Bl. 9 (D); Llefaruwraig orau'r dydd - Lowri Elen Jones Bl. 10 (C); Actor gorau'r dydd - Owain Jones Bl.10 (D); Unigolyn â'r mwyaf o farciau yn y cystadlaethau gwaith cartref - Cari Lake Bl. 12 (T). Cwpanau Adran y Gymraeg: Darn gorau o waith Bl. 7 - Luned Jones (D); Bl. 8 - Meirion Thomas (D); Bl. 9 - Alis Butten (T); Bl. 10 +11 - Llion Thomas (D); Bl 12 + 13 - Rhian Milcoy (D). Dyma'r gerdd fuddugol yng nghystadleuaeth y Gadair, Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan 2012:

Fflam

(ar ôl gweld llun plant yn newynu yn yr Affrig a'r fflam yn diffodd)

Byrlyma'r poen o'r llygaid dwys
A diffodd mae y fflam
Gorwedda'r sgerbwd croenddu sych
Ym mreichiau oer'i fam

Y pryfed du yn suo'u cân
Hwiangerdd filian, arw
A oes 'na bwrpas dwedwch chi
I eni, ond i farw?

Newyn miniog a'i gleddyf llym
A gerdda'r gwledydd draw
I wleda yn y pydredd brwnt
O'r cyrff sydd yn y baw.

A oes 'na reswm, Duw a ŵyr?
Yw'r cwestiwn gan bob mam.

Bod angau du yn bwydo'u chwant

Ar blant bach di-nam.

gan 'Y Bugail'
(Gethin Morgan o Greuddyn)



Ysgol Campws Llanbed

Ar Ddydd Gwener, Chwefror 3ydd 2012 aeth 45 o ddisgyblion i ymweld â'r Oriolau Celf ac Amgueddfeydd yn Llundain. Cafodd y disgyblion eu rhannu'n grwpiau yn ystod sesiwn y bore yn yr Amgueddfa Genedlaethol; bu grŵp Miss Thomas yn cymryd rhan mewn gweithdy printio Japaneidd, tra cafodd grŵp Miss Douch eu tywys o amgylch yr arddangosfeydd, er mwyn creu mân waith braslunio. Yn ystod sesiynau prynhawn bu'r disgyblion yn ymweld â'r Oriol Darluniau Genedlaethol. Cyn troi am adre, cafodd pawb cyfle i ymweld â siopau a 'boutiques' unigryw Covent Garden.



Llongyfarchiadau mawr i Dewi Uridge, 11 Dewi, a enillodd y wobwr gyntaf yng nghystadlaethaueth "UK Schools Planemaking Challenge". Cystadlaethaueth yw hon i ddisgyblion Dylunio a Thechnoleg blwyddyn 10 ac 11 o ysgolion ar draws Prydain Fawr. Y dasg yw creu awyren allan o bren. Fel arfer mae'r disgyblion yn creu'r awyren bren ac yn derbyn y llafn wrth drefnwyr y gystadlaethaueth, ond mi aeth disgyblion Ysgol Llanbed gam ymhellach drwy greu'r llafn hefyd, a'i galedu a'i thymheru yn ôl yr angen, dan ofalaeth Mr Aled Dafis. Enillodd Dewi wobwr o £50 a hefyd yr anrhydedd o gael ei waith wedi ei argraffu mewn cylchgrawn sy'n cael ei werthu'n genedlaethol.



O'r Cynulliad

Rwy'n parhau yn bryderus iawn fod Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn mynd ymlaen â'r cynlluniau i gael gwared ar wasanaethau o Ysbyty Bronglais, er eu bod nhw'n honni eu bod dal yn y broses o ymgynghori a 'gwrando' ar y bobl leol ynghylch eu cynlluniau. Yn ddiweddar, mynychais gyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Goffa Penparcau i drafod yr hyn fydd yn digwydd i wasanaethau iechyd gogledd Ceredigion a chanolbarth Cymru os bydd cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn cael eu gweithredu.

Mae'n amlwg fod y cynlluniau o bwys mawr i bobl Ceredigion, yn ogystal â'r rhai ddaeth o siroedd eraill i'r cyfarfod. Daeth 550 ynghyd i wrando ac i holi cwestiynau yn y cyfarfod cyhoeddus, a chytunwyd i barhau â'r frwydr drwy gynnal gwrthdystiad o flaen y Senedd ym Mae Caerdydd. Byddaf i hefyd yn parhau i herio'r Gweinidog Iechyd ar y newidiadau y mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda am eu cyflwyno i wasanaethau iechyd yr ardal.

Ychydig wythnosau yn ôl, roedd hi'n ffrainc cael cyflwyno tystysgrif a thorri'r rhuban ar gyfer gwasanaeth trafndiaeth cymunedol newydd, sef y 'Bws Bro Bach'. Mae hwn yn wasanaeth newydd a fydd yn caniatáu i bobl hŷn ddefnyddio un o'r ddau gerbyd sydd â'r ddarpariaeth i gludo cadeiriau olwyn, er mwyn mynd i siopa, ymweld â'r doctor neu'r deintydd, neu i ymweld â theulu a ffrindiau. Rwy'n gobeithio y bydd y gwasanaeth newydd yn llwyddiant ac mae disgwyl iddo wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl hŷn yr ardal sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.

Yn olaf, roeddwn yn falch iawn i weld mudiad Urdd Gobaith Cymru'n dathlu'i ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Ers yn blentyn, mae'r Urdd wedi chwarae rôl sylweddol yn fy mywyd, ac mae gennyf atgofion melys iawn o gystadlu pan oeddwn yn iau. Mae'r Urdd wedi chwarae rôl hanfodol o fewn Cymru dros y degawdau diwethaf ar sail hybu ein diwylliant, ein hiaith a'n traddodiadau, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn parhau i ysbrydoli Cymry ifanc am flynyddoedd i ddod.

Yn y Gegin gyda Gareth



Pwy sydd am gael 'Pei'?

Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn hoff iawn o fwyta pei, boed yn un sawrus neu felys. Faint ohonoch chi, fel fi, sydd wedi aros mewn siop chips ac yn methu penderfynu ai mynd am sglodion a physgodyn, neu sglodion a phei. Rhaid cyfaddef mae pei sy'n ennill gen i bob tro. Y sglein euraidd o dan y golau – w, hyfryd! Medwrch ei fwynhau a'i fwyta gyda bys a bawd yn gwylio gêm rygbi, neu fel pryd cylllell a ffôr wrth gwrs. Felly mae'n esgus da i greu pei wrth ddathlu 'Wythnos y Pei' 5-11 Mawrth.

Mwynhewch flas y mis o'r gegin,

Gareth

Pei Spigoglys a Thato

Cynhwysion

- 200 gm caws 'feta'
- 2 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd
- 770 gm o dato melys wedi'u torri'n giwbiau
- 2 llond llwy de o 'chilli flakes'
- 400 gm o spigoglys wedi rhewi (spinach)
- 200 gm o iogwrt trwchus
- 5 owns o fenyn
- 4 darn mawr o 'grwst filo'



Dull

1. Trowch y ffwrn i 200°C, Ffan 180°C, Nwy 5 Cynheswch yr olew mewn padell ffrio fawr a ffriwch y tatws am tua 10 munud cyn ychwanegi'r 'chilli'. Arllwyswch i fowlen ac ychwanegwch y spigoglys, caws a'r iogwrt.

2. Brwsiwch fenyn dros un darn o 'filo' a defnyddiwch i'w roi dros waelod tun rhostio isel. Gwnewch hyn eto gyda dau ddarn arall o 'filo'.

3. Rhowch y llenwad yng nghanol y tun. Rhowch fenyn dros y darn olaf o 'filo', plygwch yn hanner a rhowch dros y llenwad ac unwech â'r 'filo' arall a'u selio. Brwsiwch gydag olew a choginiwch am 25 i 30 o funudau nes yn euraidd. Torrwch yn dafellau a gweinwch.

Pei afal a Llys

Cynhwysion

- 600 gm o afalau coginio
- 75 gm o siwgr
- 1 twba o blueberries
- ½ llond llwy de o nutmeg
- ½ llond llwy de o 'sinnamon mâl'
- 225 gm o grwst brau (shortcrust)
- Ychydig flawd
- 2 llond llwy fwrdd o laeth
- 1 llond llwy de o siwgrw'r caster i'w wasgar dros y pei



Dull

1. Twymwch y ffwrn i 190°C; Ffan 170°C; Nwy 5

2. Pliciwch yr afalau a'u tafellu. Rhowch yr afalau a'r blueberries yn haenau mewn dysgl pei. Ychwanegwch y sbeis a'r siwgrw'r.

3. Roliwch y crwst brau nes yn gylch digon mawr i guddio'r pei.

Seliwch y cyfan yn dda. Gwnewch dwll yn y canol i ollwng yr ager allan.

4. Brwsiwch â'r llaeth a gwasgarwch y siwgrw'r caster dros y cyfan. Coginiwch am 35 i 40 o funudau nes yn euraidd.

Mwynhewch yr arogl hyfryd o'r afalau'n coginio a gweinwch gydag hufen neu gwstard, neu'r ddau.

Pob hwyl,

Gareth

Cwmsychpant

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i holl aelodau CFfl Pontsian a Llanwenog sy'n byw o fewn yr ardal ar eu perfformiadau yng nghystadlaethaueth y Panto yn Felinfach yn ystod y mis.

Hefyd daeth Carwyn Davies, Caerwenog, yn ail fel Aelod Iau CFfl Ceredigion yn ystod y mis. Da iawn a dalier ati i gystadlu.

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955

☎ 01570 422232

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

AA


A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled

☎ 01570 422893 / 422175

Clees y Coleg



Mae gofal iechyd mewn cymunedau gwledig yn flaenoriaeth allweddol i'r Drindod Dewi Sant

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ymuno â Bwrdd Iechyd Hywel Dda i sicrhau bod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles o fudd i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig.

Llofnodwyd Memorandwm Dealltwriaeth heddiw gan Yr Athro Medwin Hughes, Is-ganghellor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Trevor Purt, Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd.

Bydd y cytundeb yn adeiladu ar y cydweithio cyfredol rhwng y Brifysgol a'r Bwrdd Iechyd mewn ymchwil cymhwysol a datblygiad proffesiynol parhaus.

Hefyd gwneir penodiad i Gadair Athrawol mewn Gwyddor Ymddygiad a Lles Gwledig – y cyntaf yng Nghymru – ar y cyd rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Aberystwyth, i fod yn llysgennad dros wasanaethau iechyd gwledig ar draws cymuned Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Bydd yr Athro yn gweithredu fel arweinydd ymchwil a pholisi mewn pedwar prif faes: economeg wledig a marchnata cymdeithasol; mynediad gwell i wasanaethau; mwy o integreiddio rhwng gwasanaethau; a chydlynid a chyfraniad cymunedol.

Meddai Yr Athro Hughes “Dyma benodiad i'w groesawu yn y Brifysgol a bydd yn darparu ffocws i'n cydweithio â'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Brifysgol yn datblygu Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwledig er mwyn sicrhau bod y gwaith rydym yn ymgymryd ag ef o fudd uniongyrchol i aelodau ein cymunedau”.

Esboniodd Trevor Purt, Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd: “Mae'n bleser o'r mwyaf cydweithio â'n cydweithwyr yn y sector addysg uwch. Gyda'n gilydd, cydnabyddwn yn eglur heriau unigryw ein hardal fawr wledig, ond yn hytrach na'i gweld yn broblem, fe'i gwelwn yn gyfle i ail-lunio gwasanaethau er mwyn bodloni'n benodol anghenion ein cymunedau gwledig.

“Mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod ein gwasanaethau'n gweithio i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu a datblygu'r Cynllun Iechyd Gwledig cenedlaethol yn gamau a fydd yn cyflwyno darpariaeth gofal iechyd o fath newydd mewn ardal wledig go iawn, gyda phobl go iawn, bob dydd.”



Y Brifysgol â menter plannu coed Cyswllt Cymunedol Carbon Llanbedr Pont Steffan

Bu myfyrwyr a staff Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn gwneud eu rhan i hyrwyddo cynnaladwyedd drwy fynd i'r afael â datgoedwigo trofannol Kenya. Ymunodd y Brifysgol â menter plannu coed Cyswllt Cymunedol Carbon Llanbedr Pont Steffan - y CCL i gefnogi ac annog y prosiect drwy gyfrannu arian cyfatebol am bob coeden a noddir gan y myfyrwyr y tymor hwn.

Gyda chefnogaeth egniol Undeb y Myfyrwyr, cyrhaeddodd y myfyrwyr a'r staff y targed a chodi £1215.31 i brynu coed yn Kenya. Bydd y Brifysgol yn cyfateb y nawdd, £1 am £1.

Roedd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, yn rhan o'r dathliadau a bu'n plannu coeden ar y campws. Meddai: “Hoffwn longyfarch myfyrwyr a staff y Brifysgol am eu rhodd hael i brosiect Maint Cymru. Maent yn dangos, nid yn unig ymrwymiad i wella ansawdd bywyd pobl Bore yn Kenya a fydd yn elwa o'r coed a blannwyd, ond hefyd ymrwymiad go iawn i'r syniad o feddlu yn fyd-eang wrth weithredu'n lleol.”

Meddai Jane Davidson, Cyfarwyddwr INSPIRE, y sefydliad newydd gyfer cynnaladwyedd yn y Brifysgol: “Mae gan y Brifysgol rôl bwysig wrth weithio gyda'r myfyrwyr i ymateb i faterion cynaliadwyedd byd-eang. Mae'r fenter hon yn gyffrous oherwydd ei bod yn cysylltu yr hyn rydym yn gwneud yn Llambled gyda phlannu coed newydd yn Bore fel rhan o fenter Maint Cymru. Mae cysylltiadau o'r fath gyda chefnogaeth ein myfyrwyr yn rhan o ymrwymiad clir y Drindod Dewi Sant i greu Cymru mwy cynaliadwy.” Roedd gan fyfyrwyr rôl allweddol i'w chwarae yn yr ymgyrch hon yn enwedig gan fod cynnaladwyedd yn rhan o themâu Llundain 2012 ac ymgyrch y Undeb y Myfyrwyr ‘Be a Champion’.

Mae Abi Carrington yn Llysgennad Olympaidd ar Gampws Llambled. Dywedodd: “Mae'r ymgyrch hon yn golygu bod myfyrwyr nid yn unig yn cefnogi ffermwyr Kenya, ond hefyd maen nhw'n helpu creu amgylchedd a fydd o fudd i fyfyrwyr o ran gwaith maes am flynyddoedd i ddod.”

Mae'r CCL wedi derbyn £12,800 gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r Cynllun Newid Hinsawdd Bore. Fel rhan o'r wobwr hon, bydd Luci Attala, Cymrawd Addysgu yn yr Ysgol Archaeoleg, Hanes ac Anthropoleg yn monitro a gwerthuso sut y mae'r gymuned leol yn addasu i effeithiau cynyddol newid yn yr hinsawdd mewn cyd-destun is-Sahara. Dywedodd: “Mae'r CCL yn dod â chymunedau yng Nghymru ac Affrica at ei gilydd. Trwy'r fenter hon, rydym nawr yn gysylltiedig â'r Giriama yn Bore, Kenya. Mae'r Giriama yn llwyth bach sy'n byw drwy losgi golosg sy'n arwain at datgoedwigo ac mae'r CCL yn anelu i helpu'r gymuned i ddatblygu bywoliaeth gynaliadwy amgen. “Byddaf yn ymchwilio i'r canlyniadau hyn a'r berthynas sydd rhwng dwy gymuned wahanol iawn, yn ogystal â sylwadau ar sut caiff y newidiadau enfawr a wynebir gan gymunedau ymylol llwythol fel hyn eu trafod heddiw.



O'r Cynghorau Bro



Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Cyng. Bill Green Clerc: Gwennan Davies

Penderfynwyd bod angen sedd newydd yng Nghae Sarn, Cwrtnewydd. Mae person lleol wedi'i ddewis i wneud y gwaith ac mi fydd y sedd yn gopi o'r sedd sydd ar y bont yng Nghwrtnewydd.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi bod mewn cysylltiad â'r Swyddfa Bost ynglyn â'r posibilïad o gael fan bost symudol i wasanaethu pentrefi'r plwyf. Mae'r Swyddfa Bost mewn trafodaethau â'r ardal leol ar hyn o bryd a byddwn yn clywed oddi wrthynt maes o law.

Tynnwyd sylw'r Cyngor Sir at gyflwr yr heol yn Rhuddlan; daeth ymateb i law yn dweud mai arwyneb dros dro sydd yno ar hyn o bryd ac y bydd yr heol yn cael ei ail-wneud yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi prynu'r chwech hen giosg coch sydd yn y plwyf ac mae'r cynghorwyr ar hyn o bryd yn casglu syniadau ar ba ddefnydd i'w wneud ohonynt.

Daeth swyddog o'r sir allan i roi cyflwyniad i'r cynghorwyr ar gynllun Cynnal y Cardi a Balchder Pentrefi yng nghyfarfod mis Chwefror. Gobeithiwn fedru datblygu prosiect i'r plwyf o dan y cynlluniau yma.

Cyngor Tref Llambled

Y Maer: Hag Harriss, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 26 Ionawr 2011 yn Neuadd yr Eglwys, Llambedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Maer Offirmwyd gweddi gan Kistiah Ramaya.

Cafwyd cyflwyniad gan Derek Marshall. Mae Ymddiriedolaeth Ddatblygu Trawsnewid Llambled wedi derbyn prydles o 20 mlynedd ar Neuadd Fictoria gan Gyngor Ceredigion. Nid yw'r mudiad yn gwneud elw; ailfuddsoddir unrhyw adnoddau a ddaw i law yn yr Ymddiriedolaeth. Yn y gorffennol ychydig o ddefnydd a wnaed o'r neuadd, yn ôl Mr Marshall. Bellach gwneir pob ymdrech i hybu gweithgareddau newydd, ond cyn gallu gwneud hynny rhaid gwario ryw £55,000 ar doiledau a chegin. Mae dros gant o wirfoddolwyr wedi cynnig glanhau a phaentio blaen yr adeilad yn gam cyntaf. Mae Cynllun Busnes wedi ei baratoi, a derbyniwyd grant gan Gyngor Ceredigion, cymorth hefyd gan y Drindod Dewi Sant a gwybodaeth gan CAVO am ffynonellau ariannu posibl. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cyfrannu £20,000 i geisio troi un o adeiladau eiconig y dref yn ganolfan gymunedol.

Plismona - 1. Mae llawer o bobl ifanc yn crynhoi yng nghyffiniau archfarchnad Sainsbury. 2. Rhaid gwneud cais i'r Awdurdod Lleol os bwriedir cau ffyrdd er mwyn cynnal gwasanaethau megis Sul y Cofio. 3. Holwyd a oedd y chwe chamera cylch cyfyng yn gweithio'n effeithiol.

Ethol Maer a Dirprwy Faer 2012-13 - Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol ar 4 Mai. Ysbyty Bronglais - Ffurfiwyd is-bwyllgor i baratoi ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad swyddogol.

Dathlu Jiwibili'r Frenhines - Cytunwyd i brynu cwpanau i'r plant sy'n mynychu Ysgol Ffynnonbedr.

Gwasanaeth Bysiau X40 - Mae'r trigolion yn gofidio am y newidiadau a allai olygu na fydd gwasanaeth cyhoeddus i'r Co-op, lle mae Swyddfa'r Post. Ni fyddai gwasanaeth ychwaith i drigolion Cwmann a Phencarreg. Disgwylir y bydd y newidiadau'n dod i rym ar 28 Chwefror.

Penderfynwyd cefnogi: Cyngor ar Bopeth, Ceredigion; Ambiwylans Awyr Cymru; Urdd Gobaith Cymru; Sefydliad y Galon; Macmillan; Cymdeithas Amaethyddol Llambled; Theatr Ieuencid Llambled.

Gorsgoch

Gor-ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Mrs Jean Evans, Llwyn-y-gôg, ar ddod yn hen-famgu i Osian Huw, mab bach i'w hŵyr Eilir a'i wraig Catrin ym Mhenrhiwllan.

80 oed

Pen-blwydd Hapus i Gerwyn Williams, Bryn y Wawr, a dathlodd ei ben-blwydd yn 80 oed yn ystod y mis. Gobeithio iddo fwynhau'r dathlu.

Llongyfarchiadau

Mae Enfys Hatcher, Cefnhafod, wedi cael ei phenodi'n Is Bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Gyfun y Preseli cyn gwyliau hanner tymor – da iawn ti, rwyd wedi gwneud yn wych, o ystyried taw ond ym mis Medi 2011 y gwnest di gychwyn yno.

Adloniant



Ffion Medi, Swyddog Diwylliant Bro yn EDRYCH YN NÔL AC YMLAEN!

Mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn yn Theatr Felinfach cyn ac ar ôl y Flwyddyn Newydd wrth inni fynd o un Panto i'r llall! Panto blyneddol Cwmni Actorion Theatr Felinfach yn gynta' nôl ym mis Rhagfyr yn cyflwyno 'Howdi Dŵ y Choo Choo'. Yna i ddechrau'r flwyddyn, bu Martyn Geraint a'i griw yn perfformio 'Jac a'r Goeden Ffa' ac yna'r Little Mill Players yn cyflwyno 'A Lad i'n Tregaron'. Yng nghanol mis Chwefror bu wythnos llawn dop o gystadlu brwd gan Glybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion gyda 14 panto ar lwyfan y Theatr drwy gydol yr wythnos! Felly digon o fwrlwm yn wir!

Ffarwel! Yn anffodus bu rhaid i ni ffarwelio ag aelod o staff ddechrau mis Chwefror sef Dafydd Aeron, Swyddog Blaen Tŷ. Wedi 39 mlynedd o wasanaeth, mae Dafydd wedi ymuno â'r weinidogaeth yn llawn amser a bellach yn Giwrad ar Eglwys ardal Llangeitho a Llanddewi Brefi. Diolch o galon i Dai am yr holl flynyddoedd yma yn y Theatr, a dymuniadau gorau iddo yn y swydd ac i'r dyfodol.

Mae Tic-Toc yn parhau ar fore Gwener yn y Gwndwn, Theatr Felinfach, am 10.00am. Llond lle o blant bach 0 i 3 oed sy'n teithio gyda'u mamau a'u mam-gu's o bob cwr o'r sir i ymuno â ni mewn sesiwn stori, dawns a chàn. Mae Brasgam hefyd yn mynd o nerth i nerth gyda sesiynau poblogaidd 'Zwmba' i'r oedolion, nos Lun am 5.30 a 'Clocio' i blant Cynradd, nos Fawrth o 5.30 ymlaen. Ffoniwch y Theatr ar 01570 470 697 am fwy o wybodaeth. Hyfryd yw gweld sesiynau Brasgam yn cyrraedd ein cymunedau gwledig wrth inni gynnig amrywiaeth eang o arddulliau gwahanol o ddawnsio. Erbyn hyn mae sesiynau wythnosol yn cael eu cynnal yn Llechryd ac ym Mhonterwyd.

Croesawu staff newydd! Braf fydd croesawu 3 aelod newydd i ymuno â chriw'r Theatr dan gynllun prosiect Cyrraedd y Nod. Mae Meinir Mathias, Ian Wyn Rowlands ac Ilar Rees Davies yn weithwyr celfyddydol fydd yn gweithio ar amrywiaeth o brosiectau drwy gyfrwng Ffilm a Ffotograffiaeth, Theatr, Dawns a Chelf.

Newyddion cyffrous! Mi fydd CIC! (Enillwyr Tlws Coffa Robina 2011) eleni yn mynd ar daith i Iwerddon rhwng y 7fed a 14eg o Ebrill gyda pherfformiad newydd a gwreiddiol o chwedl Branwen a fydd yn cael ei pherfformio yn yr ieithoedd Celtaidd. Trwy brosiect Y Cymdogion Celtaidd mae'r cwmni'n cydweithio â phobl ifanc o Iwerddon, Cymru a'r Alban, ac mi fydd y tair gwlad yn cyd-berfformio'r cynhyrchiad hynod gyffrous hwn dros y Pasg draw yn yr Ynys Werdd!

Hefyd mae Cwmni Dawns Rhuddem yn datblygu gwaith newydd cyffrous ar y cyd â Mererid Hopwood ar hyn o bryd. Maent wedi dechrau ar y broses greadigol sy'n seiliedig ar wahanol themâu o'r Chwedl boblogaidd 'Branwen'. Bydd yna berfformiad ym Mis Mai felly edrychwn ymlaen yn arw at hwnnw.

Os am wybod mwy am holl ddigwyddiadau Theatr Felinfach gellir cael ein rhaglen oddi ar ein gwefan neu gallwch ein ffonio. Cofiwch hefyd fod croeso mawr i chi alw draw i'n gweld unrhyw bryd! Edrychwn ymlaen at eich croesawu!

Colofn y C.Ff.I.



Ceredigion

Bu mis Chwefror yn fis prysur iawn i aelodau'r mudiad wrth i gystadleuaeth y pantomeim ddod i stepen y drws. Braf oedd gweld Theatr Felinfach yn llawn drwy'r wythnos. Roedd yn bleser i weld dros 400 o aelodau yn cymryd rhan o bob ardal o'r air.

Dyma'r canlyniadau: Actor Gorau dan 16: Rhys Griffiths, Llangeitho; Actores Gorau dan 16: Miriam Davies, Trisant; Actor Gorau dan 26: Geraint Jenkins, Tal-y-bont; Actores Gorau dan 26: Sioned Thomas, Trisant

Set Gorau: Troed-yr-Aur; Sgript Gorau: Elen Pencwm, Tal-y-bont; Perfformiad Technegol Gorau: Caerwedros a Thregaron; Cynhyrhydd Gorau: Ellen Jones, Troed-yr-Aur.

Canlyniad Terfynol: 6ed: Llanddewi Brefi; 5ed: Trisant; 4ydd: Llangeitho; 3ydd: Llanwenog; 2il: Troed-yr-Aur; 1af: Tal-y-bont. Llongyfarchiadau enfawr i bawb a fu'n cystadlu!

Dyddiadau i'ch dyddiaduron: Mis Mawrth: 2il: Dawns Dewis Swyddogion; 7fed: Hyfforddiant Barnu Moch; 18fed: Cystadleuaeth Effeithlonrwydd a Diogelwch a Ffensio y Sir; 21ain: Pwyllgor Gwaith ac Is-Bwyllgorau'r Sir; 24ain: Diwrnod Maes y Sir, Mart Tregaron. Mis Ebrill: 8fed: Diwrnod Hwylus Sul y Pasg, Clwb Rygbi Aberaeron; 18fed: Pwyllgor Gwaith ac Is-bwyllgorau'r Sir; 20fed: Gala Nofio'r Sir; 23ain: Cwis Iau y Sir.

Llanybydder



Côr Lleisiau'r Werin

Mae Côr Lleisiau'r Werin yn cwrdd bob nos Iau yn Ffestri Capel Aberduar, Llanybydder, o dan arweiniad Elonwy Davies. Rydym fel côr yn cael llawer o hwyl wrth ymuno i ganu amrywiaeth o ganeuon megis 'Cwm Alltcaf' ac 'All that Jazz'!

Llynedd canodd y côr mewn cyngerdd arbennig yn Eglwys Llanybydder i godi arian at Multiple Sclerosis, Gŵyl Nadoligaidd Pentref Llanybydder, Cartref Preswyl Cwm Aur, a llawer o achosion eraill. Eleni mae gennym lawer o gyngherddau rydym yn paratoi tuag atynt yn barod, yn cynnwys cyngerdd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda Grŵp Cymraeg Aberhonddu ddiwedd mis Chwefror.

Rydym o hyd yn falch i groesawu aelodau newydd o bob oedran i ddod i ymuno yn yr hwyl! Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Kay Davies, cadeirydd y côr ar 480 850.

Ar nos Iau 12ed Ionawr, ail-gynnullodd y côr wedi gwyliau'r Nadolig. Llongyfarchwyd Margaret Roberts, trysorydd y côr, ar ddod yn fam-gu cyn y Nadolig i Harri bach.

Nos Iau, 19eg o Ionawr, llongyfarchwyd Yvonne Evans, Tandderi, am iddi hi a'i gŵr Daniel ennill cystadleuaeth y 'clamp silage' a'r 'overall forage cup' gyda grŵp trafod amaethyddol Llambled. Hefyd, llongyfarchiadau i Ann Bellamy, Hendy, am iddi hi a'i gŵr Alan ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth y 'big bale' gorau gyda'r grŵp trafod. Llongyfarchwyd Elma, a oedd yn aelod o dîm buddugol Capel Rhydybont yng nghystadleuaeth cwis y capeli yn ddiweddar.

Ar nos Iau 26ain Ionawr, croesawyd Margaret Jones nôl i gyfeilio i'r côr, wedi ychydig fisoedd o seibiant yn dilyn ei llawdriniaeth. Rydym fel côr yn falch iawn i gael Margaret nôl wrth y piano! Wrth groesawu Margaret nôl, rhaid oedd diolch i Alwena am gyfeilio i'r côr yn absenoldeb Margaret. Gwnaeth Alwena waith arbennig, ac mae ein dyled ni fel côr yn fawr iawn iddi. Diolch i chi Alwena.

Estynnwyd llongyfarchiadau i rai o blant aelodau'r côr, sef Sioned Evans, Lowri Davies, Elin Jones a Gethin Hatcher, ar eu llwyddiant mewn cystadleuaeth siarad cyhoeddus yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Glwb Llanwenog ar ennill tarian am fod y clwb â'r mwyaf o bwyntiau ar ddiwedd y gystadleuaeth. Da iawn chi! Llongyfarchiadau i Elonwy ar gael ei hethol yn Llywydd Rali Ffermwyr Ifanc Ceredigion 2012. Anrhydedd mawr y mae'n ei haeddu'n llwyr am yr holl waith mae wedi'i wneud dros y blynyddoedd o fewn y CFFI.

Roedd Elonwy yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ar y 30ain o Ionawr, felly trefnwyd syrpreis iddi ar ddiwedd ymarfer nos Iau, 26ain! Rhoddwyd anrheg iddi, sef copi organ o Caneuon Ffydd, a gwnaeth Sulwen drefniant blodau hyfryd iddi. Gwnaeth Catrin gacen i Elonwy, ac roedd hon yn gacen arbennig iawn. Diolch i bawb am helpu gyda'r trefniadau, ac i bawb am ddod i ddathlu gydag Elonwy. Pen-blwydd hapus iawn i chi Elonwy, oddi wrth bob un aelod o Gôr Lleisiau'r Werin!

Ar yr 2ail o Chwefror, dymunwyd yn dda i Nans, gan ei bod hi yn mynd i'r ysbyty am lawdriniaeth. Estynnwyd llongyfarchiadau i Yvonne, Afallon, a'i gŵr

Eifion, ar enedigaeth eu hŵyr bach. Ac hefyd llongyfarchiadau i fab Mair Potter, Trystan, ar ei dyweddïad â Gemma Hope.

Yn rhifyn nesaf Clonc cewch hanes ein cyngherddau yn Aberhonddu a Pheniel, a llawer mwy o hanes y côr!

70oed

Dathlodd Mrs Elonwy Davies, Gwendraeth ei phen-blwydd yn 70oed yn ddiweddar, a chafodd ddathlu yng nghinio C.Ff.I. Llanwenog yn Nhyglyn Aeron.

Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Daeth y chwiorydd ynghyd yn y festri ar brynhawn Llun 20fed Chwefror i drafod yr arwerthiant blynyddol.

Ar ôl y cyfarfod treuliodd y chwiorydd brynhawn diddorol gyda'i gilydd yng nghwmni Hannilia a ddaeth i ddangos lluniau a fideo o Batagonia.

Diolch i'n Gweinidog, Parch Jill Tomos, am ddod â'r cyfrifiadur a'r sgrin fawr er mwyn i ni gael gweld gwahanol lefydd a welwyd ar y daith, a gweld un o blant Aberduar, sef Parch Eirian Wyn Lewis, yn cael ei urddo i'r Orsedd yn y Wladfa am ei gyfraniad ers blynyddoedd yn hybu'r berthynas glòs rhwng Cymru a'r Wladfa.

Edrychwn ymlaen at yr arwerthiant blynyddol yn y Ffestri ar Fawrth 14eg am 7 o'r gloch. Agorir y noson gan John Owen Morgan Llanbed. Croeso cynnes i bawb.

Mab bach

Llongyfarchiadau i Stephanie a Daniel, Argoed, ar enedigaeth eu pedwerydd bachgen bach sef Carter Lee. Dymuniadau gorau i chi fel teulu a gobeithio bod ei frodyr yn hoff iawn o'u brawd bach!

18 oed

Dathlodd yr efeilliaid Gareth a Steffan Davies, Llys Enwyn, eu pen-blwyddi yn 18 oed yn ystod y mis. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu!

Gwellhad Buan

Derbyniodd Raymond Davies, Laneurig, lawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn well yn glou.

Diolch

'Diolch, diolch, diolch yw fy nghân' am y caredigrwydd enfawr a ddangoswyd tuag ataf yn ddiweddar. I bob un ohonoch, diolch o galon – Elonwy.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Daloni Evans, Bryngwyn, Llanybydder, ar gael ei gwobrwyo'n fyfyrwraig y flwyddyn 2010–2011 Adran Astudiaethau Gweinyddiaeth a Busnes yng Ngholeg Sir Gâr. Cafodd Daloni ei gwobrwyo mewn noson arbennig ym mis Rhagfyr gan Mr Rupert Moon yng Ngholeg y Graig, Llanelli. Mae Daloni yn awr yn astudio yn ei hail flwyddyn. Dalier ati.

Merched y Wawr

Yn ein cyfarfod fis Ionawr cawsom noson ddifyr yng nghwmni Paul Jones o Lamber. Croesawyd ef gan Susan Evans a bu Paul yn dangos i ni sut i gadw'n heini. Diolchwyd iddo gan Anne Milcoy. Rhoddwyd y raffl gan Caroline Davies ac fe'i henillwyd gan Linda Davies.

Ar nos Wener 3ydd o Chwefror, aeth yr aelodau i'r Llew Du am eu swper blynyddol i ddathlu gŵyl Santes Dwynwen. Cafwyd pryd o fwyd blasus iawn. Llywyddwyd y noson gan Caroline Davies a mwynhawyd cwis, yn ogystal ag adrodd storïau yng nghwmni'n gilydd. Rhoddwyd y raffl gan Linda Davies ac fe'i henillwyd gan Gwyneth Morgan. Diolch i berchnogion a staff y Llew Du.

Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Cyfarfu'r gangen Nos Lun, 6 Chwefror. Croesawyd yr aelodau gan y Llywydd, Avril Jones, ac estynnodd groeso cynnes i aelod newydd, sef Mrs Carol Smith – gobeithio y gwnaiff hi fwynhau ein gweithgareddau a'n cwmnïaeth.

Wedi trafod y materion busnes, cafwyd noson hwylus yng nghwmni Mrs Dinah Gibbons, cyn-gadeirydd y mudiad yng Ngheredigion. Mae Dinah wedi bod yn casglu 'paperweights' ers tua 30 o flynyddoedd, a daeth â rhan o'i chasgliad i ddangos i ni yn Llanwnnen. Darnau bach o wydr ydynt, ond yn drwm iawn, ac felly amhosib yw cario llawer ohonynt ar yr un tro! Soniodd am eu gwneuthuriad ac am ei chysylltiad personol hi â phob un ohonynt: rhai yn rhoddion ac eraill yn atgofion o wyliau a theithiau tramor.

Diolchodd Mrs Irene Jackson mewn geiriau pwrpasol i Dinah am arddangosfa liwgar a diddorol.

Enillwyd cystadleuaeth y mis am ddarn diddorol o wydr gan Doris Jones.

Dathlu Gŵyl Ddewi a fyddwn ar 5 Mawrth am 7 o'r gloch yn y Pantri yn Llambled.

Cydymdeimlad

Estynnir ein cydymdeimlad â Dylan Iowerth, Elaine a Luned Penynant ar farwolaeth tad Dylan, Mr Tom Jones, Caernarfon yn 89 oed.

Clwb Clonc

Mawrth 2012

£25 rhif 241:

Elan ac Elis Jenkins,
Bryngolau, Alltbylaca.

£20 rhif 433:

Mrs Bethan Thomas,
Bryn, Llanllwni.

£15 rhif 274:

Caradog Jones,
1 Maes-y-felin, Llambled.

£10 rhif 91:

Eleri Davies,
Gorwel, Gorsgoch.

£10 rhif 477:

Mrs Bethan Williams,
Nanteos, Rhodfa Glynhebog,
Llambled.

£10 rhif 400:

Arwel Rees,
Llys-y-wawr, Llanllwni.

Rhifyn mis Ebrill

Yn y Siopau


5ed Ebrill

Erthyglau, Newyddion

a Lluniau i law erbyn

26ain Mawrth

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



Dôl y Ffawyddden, Coed Cadw (40)

Wedi inni ystyried, fis yn ôl, ddylanwad rhisglo coed deri ar enwau lleoedd, mae amryw wedi holi pa ddylanwad a gafodd coed eraill ar enwau lleoedd yng Nghymru. Parhau â'r pwnc hwnnw a wnawn y mis hwn.

Mae'r ffawyddden (*Fagus Sylvatica*) ymhlith y coed hynny y gellir dangos eu bod yn tyfu mewn rhai rhannau o Gymru mewn cyfnod cynnar iawn. Anodd profi'n hollol ddiamheuol bod ffawydd yn tyfu yng Nghymru cyn dyfodiad y Rhufeiniaid yn y ganrif gyntaf. Ond wedi dweud hynny, darganfuwyd golosg ffawydd ar safle sy'n perthyn i'r Oes Haearn yn Radyr, Sir Forgannwg. Mae'r olion hynny yn cael eu priodoli i gyfnod cynharach na'r ganrif gyntaf. Yn ne-ddwyrain Cymru (de-ddwyrain Powys, Sir Fynwy a dwyrain Morgannwg) ceir amryw byd o weddillion coedwigoedd ffawydd, yn ogystal ag enwau lleoedd sy'n cynnwys elfennau megis 'ffawydd', 'ffawyddden', 'ffawyddog'. Dyma flas ar rai ohonyn nhw o diriogaeth frodorol y ffawyddden yng Nghymru, sef de-ddwyrain Cymru: Cae Glyn Ffawyddog (1634) Llantarnam, Sir Fynwy; Ffawyddog (1534/5) Cwm-iou, Sir Fynwy; Rhiw'r Ffawyddiog (1666) Rhondda, Sir Forgannwg; Caer Ffawydd (1475) Henffordd; Cae'r Ffawyddden (1591) Llanelen Sir Fynwy; Cae Ffawydd (1698/9) yn Llangatwg, Sir Frycheiniog; Ffawyddog (Ffawddog) eto yn Sir Frycheiniog.

Mae'n ymddangos bod tiriogaeth frodorol y ffawyddden heb newid ryw lawer am yn agos at 2,000 o flynyddoedd. Yn 1690 noda'r naturiaethwr Edward Lhuys nad oedd coed ffawydd yn tyfu yng ngogledd Cymru o gwbl. Nid tan y 18 fed ganrif y dechreuwyd tyfu ffawydd yng ngorllewin a gogledd Cymru ac adlewyrchir hynny yn nyddiad yr enwau lleoedd cynharaf sy'n cynnwys yr elfen. Yng Ngheredigion ceir Dôl y Ffawyddden (1722) yn Llandyfriog; yn Sir Gaernarfon ceir Gardd Ffawydd (1789) yn Nhregarth.

Yn ôl cyfraith Hywel Dda gwerth ffawyddden, yn gyffredinol, oedd trigain ceiniog, sef hanner gwerth derwen. Nid yw'r fersiynau o'r gyfraith a ddaw o ogledd Cymru, sut bynnag, yn sôn o gwbl am ffawydd gan nad oedd ffawydd yn tyfu yno. Ar y llaw arall, mae rhai fersiynau o dde-ddwyrain Cymru yn nodi bod ffawyddden gyfwerth â derwen.

Coed Cadw

Credir bod gwahanol fersiynau o'r Cyfreithiau a briodolir i Hywel Dda yn disgrifio, yn gyffredinol, yr amodau a oedd yn bodoli yn fforestydd Cymru yn y cyfnod rhwng y 10fed a'r 12 fed ganrif. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y fforestydd at ei gilydd ar gael i ddibenion hela, casglu tanwydd a chrynhoi cynnyrch y goedwig. Mae cais, yn ogystal, i ddiogelu adar ar gyfer helwriaeth ac i ryw raddau i warchod y fforest ei hun. Byddai torri'r isdyfiant yn gyson, ynghyd ag ambell dderwen o bryd i'w gilydd, yn creu amodau ffafriol ar gyfer prysgwydd neu fangoed (coppice).

Roedd gwerth tir coed yn cael ei gydnabod yn y rhandir, sef uned diriogaethol o 312 o erwau (yn y Cyfreithiau). Roedd yn cynnwys 300 erw o dir â'r, tir pori a thanwydd; roedd 12 erw ar gyfer adeiladau'r anheddiad. Cyfeirir yn ogystal at 'goed cadw' sef darn o goedwig a ddiogelid er mwyn i foch y dethol rai allu pori'r mes (a phesgi'n braf o ganlyniad i'w profiad). Byddai'r moch yn cael eu gollwng i'r coed cadw am gyfnod yn estyn o ychydig ddiwrnodau cyn Gŵyl Mihangel Sant tan bymtheng diwrnod wedi'r Ystywyll. Roedd cosb drom am dorri'r amodau hyn. Roedd coed cadw yn ogystal yn estyn cyfle i aelodau'r llwyth gynhaefu cynnyrch y goedwig.

Roedd 'coed cadw', felly, yn derm cyfreithiol ac yn diffinio arfer. Mae'r hen arfer hwn o ddiogelu tir y goedwig at bwrpas a defnydd penodol yn cael eu goffâu mewn enwau lleoedd megis: Coed Cadw (1305), Llaniestyn, Môn; Coed Cadw (1434), Nanhyfer, Sir Benfro; Coed Cadw (1568), Pendelwyn, Sir Forgannwg; Coed Cadw (1474), Diserth, Sir Fflint.

O geiniog i geiniog y try'r arian yn bunt



Diwedd y flwyddyn ariannol yn agosau

gan Beca Russell

Gyda diwedd y flwyddyn dreth yn agosau (5ed Ebrill) mae nifer o bethau y gallwch ystyried eu gwneud cyn hyny.

1) Gwneud y mwyaf o'ch Cyfrifon Cynilo Unigol (ISAs)

Mae gan bawb sydd dros ddeunaw lwfans buddsoddi o £10,680 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011/12, a bydd hyn yn codi i £11,280 o'r 6ed Ebrill 2012. Gallwch fuddsoddi hyd at £5,320 mewn cyfrif arian parod, a'r un faint hefyd mewn cyfrif stociau a chyfrannau (stocks & shares); neu yn hytrach, hyd at £10,680 mewn cyfrif stociau a chyfrannau. Yn ychwanegol at hyn, cyflwynwyd y 'Junior ISA' fis Tachwedd llynedd sydd yn galluogi i hyd at £3,600 gael ei fuddsoddi i unigolion o dan ddeunaw. Er mwyn defnyddio'ch lwfans ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, rhaid i chi gyfrannu i un o'r cyfrifon uchod cyn y 5ed Ebrill.

Prif fanteision:

- * Bydd unrhyw dyfiant neu incwm yn ddi-dreth (oni bai am y 10% treth ar dididendau).
- * Dim angen recordio ar eich ffurflen hunan assesiad flynyddol.

2) Eithriad Treth ac Enillion Cyfalaf (Capital Gains Tax Exemptions)

Er nad oedd 2011 yn flwyddyn lewyrchus i nifer o farchnadoedd stoc y byd, mae dal yn bosibilrwydd bod eich buddsoddiadau sy'n gysylltiedig â'r farchnad stoc wedi cynyddu mewn gwerth oddi ar eich buddsoddiad gwreiddiol. Os nad yw'r buddsoddiad yma mewn cyfrif di-dreth, megis y cyfrifon cynilo unigol, mae'n syniad da i grisialu eich enillion cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn arbed treth adeg y bydd eich buddsoddiad yn aeddfedu. Ar gyfer y flwyddyn 2011/12 gall pawb grisialu enillion gwerth hyd at £10,600 heb dalu treth.

3) Treth Etifeddiaeth

Yn bresennol mae'r 'Nil Rate Band' ar gyfer treth etifeddiaeth wedi rhewi ar £325,000 yr unigolyn hyd at Ebrill 2015, felly mae'n bwysicach fyth i ddefnyddio eich eithriadau treth etifeddiaeth blynyddol. Mae'r 'Nil Rate Band' yn cyfeirio at werth stad person wedi ei farwolaeth sydd yn ddi-dreth, bydd unrhyw swm dros ben hyn yn cael ei drethi ar 40%. Mae o fantais felly i gadw gwerth eich stad lawr o dan y lefel hwn. Nodwch bod symudiadau rhwng pâr priod ar farwolaeth partner yn ddi-dreth ac mae'n bosib trosglwyddo'r 'Nil Rate Band' i'r goroeswr/wraig.

Y prif eithriad blynyddol sydd ar gael i'r unigolyn yw £3,000, ac mae'n bosib i ddefnyddio eithriad llynedd os nad ydych wedi gwneud yn barod; h.y. gallwch roi hyd at £6,000 (£3,000 am 2010/11 a £3,000 am 2011/12) yn rhydd o dreth etifeddiaeth cyn y 5ed Ebrill. Mae rhoddion o hyd at £250 yn gallu cael eu gwneud i faint bynnag o bobl heb ddim effaith ar dreth etifeddiaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'ch cyfrifydd neu eich ymgynghorydd ariannol.

YSWIRIANT FUW

Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai



Arbenigedd lleol
Polisiâu at bopeth
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa Yswiriant FUW,
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu'n ôl gan
Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyddestun cyhyngu yswiriant,
o dan Rôl Cofrestru 308039.

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

01570 423135

07811917799 /

07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

Gwersi Piano

gan athrawes brofiadol



Cysyllter ag

Ann Bowen Morgan

01570 422413

DAI MECANIC

Arbenigwr mewn:

- Gwasanaethu a thrwsio beiciau ATV
- Cynnal a chadw cyfarpar pŵer

DAI JONES

07791 840 500



01570 434238 07767 676348

Clwb Cyri

Bob nos Wener
6.30-8.30yh
£5 am gyri o'ch dewis,
reis, sgloodion a
bara naan
Take Away neu
bwyta mewn

Cwis

Nos Iau cyntaf bob
mis
8 o'r gloch
Bwyd yn rhan o'r
noson
Timau:
dim mwy na 6

Llanllwni

Diolch

Dymuna Steffan Harris, Yr Hen Felin, Llanllwni ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Steffan Harris, Yr Hen Felin, am ennill gwobrau yn yr adran plu a dofednod yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd cyn y Nadolig.

Ysgol Llanllwni

Mae staff a phlant yr ysgol yn dymuno'n dda i'n Pennaeth, Mrs Nans Davies, yn dilyn llawdriniaeth i gael clun newydd. Yn dysgu'r Adran Iau yn absenoldeb Mrs Davies mae Mrs Margaret Evans a Miss Donna Jones. Croeso i'r ddwy atom a phob hwyl gyda'r gwaith.

Yng nghyfarfodydd diweddaraf yr Urdd gwnaethom weithgareddau i ddathlu pen-blwydd yr Urdd yn 90 oed a chawsom gwis.

Rydym wrthi'n paratoi ar gyfer cyngerdd a fydd yn cael ei gynnal yn yr ysgol ar nos Wener, Mawrth 23. Fe fydd plant yr ysgol ac aelodau'r Clwb Ffermwyr Ifanc yn darparu adloniant. Mae croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Chwefror:

£10.00 – 124 – Linda Evans, Ceunant, Llanllwni; £5.00 – 161 – Louise Thomas, Gwêl-y-Cwm, Llanfihangel-ar-arth; £2.50 – 43 – Wendy Rhodes, 4 Bryndulais, Llanllwni; £2.50 – 44 – James Rhodes, 4 Bryndulais, Llanllwni; £2.50 – 218 – Chris Owen, Tan Y Bryn, Llanllwni.

Cffil Llanllwni

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae'r clwb wedi bod yn brysyr iawn yn paratoi at y gystadleuaeth Panto a gynhaliwyd yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin, yn ystod wythnos hanner tymor. Ar y nos Fawrth yr oedd Llanllwni yn cystadlu a chafwyd cryn hwyl yn perfformio 'Palvalova Paxo'. Llongyfarchiadau i Owain Davies ar gipio'r wobr am yr actor gorau dan 18 oed.

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Ar nos Fawrth, Chwefror 7ed, aeth nifer o aelodau'r Eglwys i wasanaeth trwyddedu ein Ficer, y Parchedig Suzie Bale, yn Offeiriad â gofal Plwyf Llanwnnen. Roedd y gwasanaeth yn Eglwys St. Lucia, Llanwnnen. Cafwyd gwasanaeth bendithiol a chroeso cynnes. Pob bendith a llwyddiant i'r Parchedig

Suzie Bale yn ei gwaith gyda'i phraidd newydd.

Dymuna aelodau Eglwys Sant Luc longyfarch y Parchedig Eileen Davies, Gwndwn, ar gael ei hurddo yn Ganon o fewn Esgobaeth Tyddewi. Dymuniadau gorau i ti, Eileen. Ymhyfrydwn yn dy lwyddiant.

Undeb y Mamau

Siaradwraig wadd mis Chwefror oedd ein Ficer, y Parchedig Suzie Bale. Ei thestun oedd ei thaith diweddaraf i Israel, a chafwyd orig ddiddorol yn ei chwmni. Diolch yn fawr, Ficer.

Dymunwn estyn gwellhad buan i Ken Howells, Gwarallt, gŵr Janet ein llywydd, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Glangwili. Brysia wella, Ken.

Diolch

Dymuna Lynwen, Sylvia a theulu'r diweddar Ann Jones, Ger-y-Bryn, ddiolch i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu colled trist. Diolch hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd er cof am Bryn.

Dymuniadau da

Dymuniadau da i Ken Howells, Gwarallt, wedi cyfnod yn yr ysbyty ar ôl damwain ar y fferm.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Mrs Ann Thorne a'r teulu, Glenydd, ar ôl marwolaeth ei mam yn ddiweddar.

Hefyd, cydymdeimlir yn ddwys â theulu'r diweddar Irene Lawless, Bryndulais, a fu farw ar ôl trychineb echrydus yn ei chartref. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys Llanllwni o dan ofal y Ficer Suzie Bale. Yr oedd yr eglwys yn llawn teulu a ffrindiau a chymdogion, yn cadarnhau pa mor barchus a hoffus yr oedd hi yn Llanllwni.

Ar wellhad

Bu Tom Jones, 32 Bryndulais, am driniaeth yn Ysbyty Glangwili – da yw gweld ei fod yn bellach wedi cael adferiad.

Llongyfarchiadau

Mae'r Parchedig Eileen Davies wedi cael yr anrhydedd i fod yn Ganon Mynegol. Bydd gwasanaeth yn y Gadeirlan yn Nhyddewi nos Iau, Ebrill 26ain 2012, a bydd honno'n wasnaeth Hywrol Weddi. Os ydych am ddod ar y bws, ffoniwch 01559 395685. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Eisteddfod Dihewyd



Enillydd yr Her Unawd dros 18 oed oedd Gwenann Jones, Llambled. Gwenann hefyd oedd enillydd y gystadleuaeth Canu Emyn 18-50 oed.



Ianto Jones, Cribyn, enillydd y gystadleuaeth Unawd 15-18 oed yn Eisteddfod Dihewyd ar y 27ain Ionawr.

Cwrtnewydd

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Paul a Bessie Williams, Clyncoch, ar ddod yn dad-cu a mam-gu am y tro cyntaf. Ganwyd Osian Huw, mab bach i Eilir a Catrin ym Mhenrhiwllan. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Anffawd

Gwellhad buan i Mrs Brenda Jones, Gwel-y-Cledlyn, yn dilyn anffawd a gafodd yn ddiweddar.

Diolch

Dymuna Gareth Lloyd, Ucheldir, ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn yn dilyn ei lawdriniaeth yn ddiweddar.

Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd

Cafwyd mis prysur unwaith yn rhagor yn y Cylch, gyda'r plant yn mwynhau gweithgareddau amrywiol. Buom yn dathlu pen-blwydd yr Urdd yn 90 oed drwy liwio lluniau a chanu caneuon am Mr Urdd.

Hoffem ddiolch i Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd am y rhodd hael a dderbyniodd y Cylch yn ddiweddar.

Rydym yn cwrrd yn neuadd Ysgol Cwrtnewydd bob prynhawn Dydd Mawrth. Os ydych am ymuno â ni, mae croeso mawr i bawb. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch yr ysgol ar 01570 434 273.

Noson Bingo

Cynhaliodd Pwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd noson bingo yn ddiweddar, gyda Gwyn a Val Jones o Felinfach yng ngofal y chwarae. Daeth tyrfa luosog ynghyd ac fe gafwyd noson hyfryd. Cyflwynwyd sieciau i wahanol fudiadau o fewn y plwyf, a gwelwyd llun o'r cyflwyniadau hynny yn rhifyn mis Chwefror o Clonc. Gwnaethpwyd elw i Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd; cynhelir y mabolgampau'n flynyddol yn ystod mis Gorffennaf.

Ysgol Cwrtnewydd

Braf yw nodi ar ddechrau mis ein bod yn Ysgol Cwrtnewydd wedi llwydo i ennill Cam 3 yn y fenter Ysgolion Iach. Llongyfarchiadau gwresog i bawb, a bant â ni at y cam nesaf.

Croesawyd aelod o dîm Bara Braces i'r ysgol a chafwyd gweithdy coginio bara i blant y Cyfnod Sylfaen; roedd y plant wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn. Bu blwyddyn 3, 4, 5 a 6 hefyd yn pobi bara ac yn clywed mwy am hanes y grefft ar hyd y blynyddoedd.

Braf oedd gweld staff a phlant Cylch Meithrin Drefach yn defnyddio'r ysgol am rai sesiynau yn ystod y mis diwethaf. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu eto fis nesaf.

Bu'r plant wrthi ar brynghawn Gwener, Ionawr 27ain, yn dathlu pen-blwydd yr Urdd yn 90 oed. Cafwyd parti a gemau a phawb wedi'u gwisgo mewn dillad coch, gwyn a gwyrdd.

Ar yr un noson, cynhaliwyd bingo yn yr ysgol gyda Phwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd, ac roedd pawb wedi mwynhau. Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i'r Pwyllgor am y rhodd hael i gronfa'r ysgol.

Gofynnir am gyfraniad o £5 er mwyn rhoi neges o ddiolch ym mhapur bro Clonc.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,


Fy ffrindiau bach, sut ydych chi gyd? Rwy'n dechrau cael digon ar yr hen law 'ma bob dydd ac wedi cael llond bol ar gragen wlyb drwy'r amser. Ond un peth sydd wedi fy ngwneud i'n hapus yn ddiweddar yw gweld tîm rygbi Cymru yn chwarae mor dda. Byddwn i wrth fy modd yn cael cwrdd â George, Rhys a Scott. Pwy a wŷr, efallai rhyw ddydd y byddan nhw'n chwilio am grwbau i gadw cwmni iddyn nhw. Tan hynny bydd yn rhaid i mi wneud tro â'm ffrind Jac fan hyn, sydd hefyd wrth ei fodd yn chwarae rygbi. Tybed a allwch chi wneud gwisg Jac yn fwy lliwgar?

Rhywbeth arall a'm gwnaeth i'n hapus yn ddiweddar hefyd oedd derbyn eich lluniau bendigedig chi. Llongyfarchiadau i bawb fu'n lliwio'r defaid yn y cae, ond yn enwedig Wil Hockenhull o Dregaron a Llŷr Rees o Dalgarreg. Y llun wnaeth fy mhlesio orau y mis hwn oedd un lliwgar Siwan Mair Jones, 33 Maes y Wennol, Heol Pentremeurig, Caerfyrddin - da iawn ti.

Cofiwch ddanfôn llun Jac yn ei wisg rygbi newydd i mi erbyn diwedd y mis.

Ta ta tan toc.

Lincyn Lincyn



**Enillydd
y mis!**

Siwan
Mair Jones



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion

i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

**Cysylltwch â ni am fanylion
pellach**



Ffôn/Phone:

01545 574187

E-bost/E-mail:

cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan/Website:

<http://cis.ceredigion.gov.uk>

Neuadd Cyngor Ceredigion
County Council Offices,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA



Ar y llwyfan ac ar y cae



Enillwyd cwpan tŷ buddugol Eisteddfod Ysgol Gyfun gan Dulas. Gyda'r capteiniaid Elin Gwyther a Christy Gale mae eu prif gefnogwyr â'u cwpanau.



Enillwyd cwpan y cerddor gorau gan Gareth Jones, Dulas, yn ogystal â tharian cystadleuaeth offerynnol iau.



Enillydd cwpan y llefarydd gorau oedd Lowri Elen Jones, Creuddyn, a hi hefyd enillodd yr unawd merched hŷn.



Tîm hoci dan 18 Llan, sef cyfuniad o ferched clybiau hoci Llanybydder a Llandysul a fu'n chwarae yn nhwrmament cwpan de Cymru yn Abertawe. Enillodd y tîm un gêm a cholli'r tair arall yn erbyn clybiau profiadol iawn.



Tîm hoci dan 13 Llanybydder a fu'n chwarae hefyd yn y twrnament yn Abergwaun yn ddiweddar. Chwaraeodd y tîm yn erbyn clybiau Cwmtawe, Abergwaun A a B, Hwlfordd A a B, gan gael dwy gêm gyfartal a cholli tair.



Tîm hoci dan 15 Llanybydder a fu'n chwarae yn nhwrmament de orllewin Cymru yn Abergwaun. Enillwyd y gêm yn erbyn Cwmtawe 3-0, gyda Nia Gwyther yn sgorio dwy gôl ac un gôl i Amy Mawson. Cafwyd gemau cyfartal di-sgôr yn erbyn Crymch ac Abergwaun a cholliwyd yn erbyn Hwlfordd 2-0.





Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar **01570 421421**

Ffordd Tregaron, Llambled, Ceredigion, SA48 8LT

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305
07974 422 305

Partïon Pen-blwydd Urdd Gobaith Cymru yn 90 oed



Ysgol Llanwenog



Ffynnonbedr Ysgol Campws Llambed



Ysgol y Dderi

